



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

53/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

18/07/2024

# Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 2

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-316-7

Teitl: Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 2

Is-deitl: Darpariaeth ar gyfer Cwsmeriaid Trefol a Gwledig

Awdur(on): Rhys Maher, Anna Burgess, Andy Parkinson, Paula Gallagher a Jakob Abekhon

**wavehill**

Social and economic research  
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Maher, R., Burgess, A., Parkinson, A., Gallagher, P. ac Abekhon, J. (2024). *Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 2*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 53/2024.  
Ar gael fan yma: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaeth-cymrun-gweithio-papur-crynodeb-2>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Sean Homer

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru](mailto:cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau .....	3
Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad/Cefndir .....	6
2. Polisi a Chyd-destun Daearyddol .....	9
3. Methodoleg .....	14
4. Trosolwg o Arlwy'r Gwasanaeth.....	20
5. Dealltwriaeth o Fodel y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol .....	44
6. Casgliadau .....	48
7. Argymhellion .....	52
8. Cyfeiriadau .....	53
Atodiad Un: Offer Ymchwil .....	55
Atodiad Dau: Hysbysiadau Preifatrwydd .....	68
Atodiad Tri: Newidynnau a ddadansoddwyd .....	82

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Dosbarthiad dangosyddion daearyddol.....	18
Tabl 4.1: Llwybr atgyfeirio i mewn i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg awdurdod .....	28
Tabl 4.2: Llwybr atgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg rhaniad trefol- gwledig manwl.....	29
Tabl 4.3: Statws cyflogaeth cwsmeriaid cyn ymrestru, yn ôl teipoleg awdurdod .....	32
Tabl 4.4: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol .....	39
Tabl 4.5: Pa mor hawdd yw hi i chi gael mynediad at ganolfan / lleoliad untro Cymru'n Gweithio? .....	40
Tabl 4.6: Pa mor bell y mae'n rhaid i chi deithio i gyrraedd canolfan / lleoliad untro Cymru'n Gweithio? .....	41
Tabl 4.7: Sut ydych chi'n teithio i'r lleoliad fel arfer?.....	41

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Cyfran y bobl economaidd anweithgar, yn ôl teipoleg awdurdod lleol.....	10
Ffigur 4.1: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio .....	20
Ffigur 4.2: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl.....	21
Ffigur 4.3: Map o safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio .....	22
Ffigur 4.4: Cyfran partneriaid safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio.....	23
Ffigur 4.5: Dewis iaith lafar cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod .....	24
Ffigur 4.6: Dewis iaith ysgrifenedig cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod.....	25
Ffigur 4.7: Dewis iaith lafar cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl .....	26
Ffigur 4.8: Dewis iaith ysgrifenedig cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl .....	26
Ffigur 4.9: Cyfran y cwsmeriaid di-waith a atgyfeiriwyd drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl .....	29
Ffigur 4.10: Oedran, yn ôl teipoleg awdurdod .....	31
Ffigur 4.11: Oedran, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl .....	31
Ffigur 4.12: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol.....	37
Ffigur 4.13: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl...	38
Ffigur 4.14: Sut ydych chi'n defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio? .....	40
Ffigur 4.15: I ba raddau ydych chi'n teimlo bod Cymru'n Gweithio wedi gallu diwallu eich anghenion cymorth?.....	43

## Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
Allgymorth	Mae allgymorth yn disgrifio'r gweithgaredd o ymgysylltu â darpar gwsmeriaid na fyddant efallai'n gallu cyrraedd swyddfeydd parhaol Cymru'n Gweithio neu safleoedd partner cydleoli. Gallai hyn gynnwys gweithgaredd gyda phartneriaid cyd-leoli neu bartneriaid eraill a mynychu digwyddiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau gyrfaoedd.
NEET	Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
PACE	Partnership Action for Continuing Employment (rhaglen gan Lywodraeth yr Alban) <sup>1</sup>
Partner cydleoli	Mae partner cydleoli yn cyfeirio at sefydliad neu wasanaeth y mae Cymru'n Gweithio yn gweithio gydag ef i ymgysylltu â darpar gwsmeriaid.
Safle cydleoli	Mae safle cydleoli yn cyfeirio at leoliad partner lle mae gan Cymru'n Gweithio bresenoldeb er mwyn ymgysylltu â darpar gwsmeriaid e.e. swyddfa Canolfan Byd Gwaith. Yn wahanol i safleoedd allgymorth a safleoedd untro, mae'r safleoedd hyn fel arfer yn fwy parhaol eu natur.
Safleoedd untro	Mae safleoedd untro yn cyfeirio at safleoedd a lleoliadau lle mae gwasanaethau dros dro Cymru'n Gweithio wedi'u sefydlu i fodloni'r galw am gymorth. Mae'n gyffredin i safleoedd untro gael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae diswyddiadau helaeth wedi digwydd ac mewn ardaloedd lle nad oes

<sup>1</sup> Ni ddylid drysu rhwng hyn a PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth), rhaglen a ariennir gan ESF gan Lywodraeth Cymru.

<b>Acronym/Allweddair</b>	<b>Diffiniad</b>
	unrhyw safle parhaol Cymru'n Gweithio wedi'i sefydlu.
TSC+	Twf Swyddi Cymru +

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mae [Cymru'n Gweithio](#), sy'n cael ei gyflawni gan Gyrfa Cymru, yn wasanaeth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac a luniwyd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon sy'n ymateb i anghenion unigolion. Wedi'i gyflwyno yn 2019, mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad ar gyfer cymorth cyflogadwyedd. Mae'n galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael a chynnal gwaith, addysg a hyfforddiant neu ddatblygu eu gyrfa.
- 1.2 Mae hefyd yn bwysig nodi ers i gyfyngiadau aros gartref neu aros yn lleol COVID-19 gael eu codi yng Nghymru yn 2021, mae cymorth Cymru'n Gweithio wedi bod ar gael wyneb yn wyneb ac o bell. Fel yr amlygwyd yn adroddiad gwerthuso strategol terfynol Cymru'n Gweithio, mae cymorth wyneb yn wyneb wedi parhau i gynyddu, gyda'r rhan fwyaf o gwsmeriaid bellach yn cael cyfuniad o gymorth wyneb yn wyneb ac o bell.

### **Trosolwg o gwmpas a pharmedrau'r gwerthusiad**

- 1.3 Yn 2019, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Wavehill i edrych ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio. Mae'r papur crynodeb hwn yn un o dri a gynhyrchwyd i ledaenu canfyddiadau'r gwerthusiad ac mae'n nodi canfyddiadau sy'n ymwneud â hygyrchedd daearyddol y gwasanaeth, gan archwilio gwahaniaethau mewn darpariaeth yn ôl mathau allweddol o ardaloedd. At hynny, mae'n canolbwyntio ar themâu allweddol yn yr ymchwil mewn perthynas â gwahaniaethau yn y ffordd y caiff Cymru'n Gweithio ei gyflawni a'r canfyddiad ohono rhwng ardaloedd mwy gwledig a threfol.
- 1.4 Mae'r cwestiynau ymchwil allweddol sy'n llywio'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad fel a ganlyn:



- A yw manteision y 'dull un tîm' yn cael eu gwireddu?<sup>2</sup>
- A yw'r gwasanaeth yn hygyrch, yn enwedig i gwsmeriaid mewn ardaloedd mwy gwledig? Mae'r term 'hygyrch' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at fynediad daearyddol.
- Pa fodelau sy'n gweithio'n dda (cydleoli gwasanaethau gyda phartneriaid, gwasanaethau galw heibio cymunedol, ac ati)?
- Beth all y gwasanaeth ei wneud i fod yn fwy cynhwysol? Bydd hyn yn ystyried ble mae bylchau cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, yn seiliedig ar nodweddion demograffig neu ddaearyddiaeth, a chaiff ei fframio o amgylch grwpiau sy'n wynebu'r bwlch mwyaf. Wrth gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu teithiau gydol oes unigol eu hunain, a yw Cymru'n Gweithio yn cyrraedd y rhai a fyddai'n elwa o ymwneud â Chymru'n Gweithio? Os na, pa newidiadau y mae angen i'r gwasanaeth eu hystyried er mwyn cynyddu cyrhaeddiad? Sut mae cwsmeriaid yn dod i mewn i'r gwasanaeth a pha weithgareddau allgymorth/ymgysylltu sydd ar waith?
- Beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig ar draws ardaloedd a sut mae'n rhyngweithio â sefydliadau partner, gwasanaethau, y galw, ac amodau'r farchnad lafur?

### **Strwythur yr adroddiad**

- 1.5 Nod yr adroddiad hwn yw asesu sut mae'r model cyflawni a fabwysiadwyd gan Cymru'n Gweithio yn amrywio rhwng gwahanol fathau o ddaearyddiaeth yng Nghymru, gan ystyried lle mae'n gweithio'n dda, lle mae bylchau amlwg yn y gwasanaeth, ac, wrth edrych ymlaen, dyfodol y gwasanaeth. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o dan y penawdau canlynol:

---

<sup>2</sup> Mae'r dull 'un tîm' yn golygu, waeth beth fo anghenion unigolyn o ran cyngor gyrfaoedd neu gymorth cyflogadwyedd, y gallant gael mynediad at wasanaeth Cymru'n Gweithio a chael eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol.

- Polisi a Chyd-destun Daearyddol – mae'r adran hon yn archwilio sut mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â pholisi cyflogadwyedd gwledig presennol a rhaglenni cenedlaethol. Mae'r adran hon hefyd yn crynhoi tystiolaeth a gasglwyd o gynlluniau cyflogadwyedd a chymorth yn y gwaith eraill sy'n ymwneud â sut y gallai'r ddarpariaeth fod wedi amrywio ar draws mathau o ddaearyddiaeth.
- Methodoleg – mae'r adran hon yn rhoi manylion am y dulliau a ddefnyddiwyd yng ngham olaf y gwaith maes ac yn ystyried y cyfyngiadau methodolegol a wynebwyd.
- Trosolwg o Arlwy'r Gwasanaeth – mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddata monitro Cymru'n Gweithio lle nodwyd gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Caiff y canfyddiadau hyn eu hategu drwy archwilio gwahaniaethau rhanbarthol yn ymatebion arolwg cwsmeriaid a oedd wedi ymgysylltu'n sylweddol â'r gwasanaeth. Mae'r adran hon hefyd yn archwilio canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o fodel cyflawni presennol Cymru'n Gweithio a'u canfyddiadau o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni ar draws gwahanol fathau o ddaearyddiaeth.
- Dealltwriaeth o Fodel y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol – mae'r adran hon yn rhoi asesiad cryno o effeithiolrwydd presennol model Cymru'n Gweithio, gan amlygu'n benodol y cryfderau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r model mewn perthynas â'i ddarpariaeth ar draws ardaloedd gwledig a threfol.
- Casgliadau ac Argymhellion – mae'r adran hon yn darparu cyfres grynodol o ganfyddiadau ac argymhellion yn seiliedig ar waith dadansoddi drwy gydol yr adroddiad.

## 2. Polisi a Chyd-destun Daearyddol

- 2.1 Mae Cymru'n cynnwys amrywiaeth eang o fathau o ddaearyddiaeth ar raddfa wledig–drefol, gyda'i hardal fwyaf poblog (Caerdydd) yn cynnwys 2,572 o drigolion fesul cilomedr sgwâr a'i hardal leiaf poblog (Powys) yn cynnwys 26 o drigolion fesul cilomedr sgwâr<sup>3</sup>. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ddeall sut y gallai'r ffactorau hyn fod wedi arwain at wahaniaethau yn y ffordd y cafodd gwasanaeth Cymru'n Gweithio ei ddarparu rhwng ardaloedd mwy trefol a gwledig.
- 2.2 Mae'r SYG yn amcangyfrif bod ychydig llai na thraean o boblogaeth Cymru (32.8 y cant) yn byw mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwledig a bod traean o allbwn economaidd Cymru yn dod o ardaloedd awdurdodau lleol gwledig<sup>4</sup>. Mae natur wledig Cymru yn croestorri â dangosyddion eraill a allai ddylanwadu ar ddarpariaeth Cymru'n Gweithio. Gallai dangosyddion eraill gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, amlygrwydd y Gymraeg, perchnogaeth car, a chysylltedd band eang. Mae'r pum awdurdod lleol yng Nghymru lle dywedir bod dros 25 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg i gyd yn cael eu hystyried yn awdurdodau lleol gweddol wledig (Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Chonwy)<sup>5</sup>. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 2.1 isod, mae'n ymddangos bod cyfraddau gweithgarwch economaidd ar draws gwahanol fathau o ddaearyddiaeth yng Nghymru wedi dod yn debycach dros amser, gydag awdurdodau lleol trefol a'r Cymoedd yn cyd-fynd yn agosach ag awdurdodau lleol gwledig o ran cyfran y bobl economaidd anweithgar yn y blynyddoedd diwethaf. Ledled y Deyrnas Unedig, gellir nodi gostyngiadau tebyg mewn anweithgarwch economaidd hefyd. Mae'n debygol bod hyn oherwydd amodau economaidd ehangach a phwysau chwyddiant, e.e. cynnydd mewn costau byw sydd wedi arwain at fwy o bobl yn dychwelyd i'r gwaith<sup>6</sup>.

---


<sup>3</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) [Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru: Cyfrifiad 2021](#).

<sup>4</sup> Llyfrgell Ty'r Arglwyddi (2020) [Fact file: Rural Economy](#).

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2022) [Y Gymraeg yng Nghymru](#).

<sup>6</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) [Population changes and economic inactivity trends, UK: 2019 to 2026](#).

**Ffigur 2.1: Cyfran y bobl economaidd anweithgar, yn ôl teipoleg awdurdod lleol**



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)

### Strategaeth a pholisi

- 2.3 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyd-destun y mae rhaglen Cymru'n Gweithio yn gweithredu ynddo o ran y gwahaniaethau sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd trefol a gwledig ledled Cymru. Mae'n rhoi trosolwg o gyd-destun polisi presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymorth cyflogadwyedd, yn ogystal â thystiolaeth a gasglwyd o werthusiadau o weithrediadau cyflogadwyedd a chymorth cyflogaeth parhaus a blaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 2.4 Mae [Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau](#) 2022 Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth cyflogadwyedd. Mae'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y cynllun yn cynnwys: Hyrwyddo cyfranogiad, dilyniant a chyflogaeth ieuencid; Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd; Hyrwyddo Gwaith Teg i Bawb; Cynorthwyo pobl â chyflwr iechyd hirdymor i weithio; a Chodi lefelau sgiliau a chymwysterau, a symudedd y gweithlu. Er bod y Cynllun yn gweithredu ar lefel genedlaethol trwy gyflawni'r camau gweithredu sy'n rhan

ohono, mae hefyd yn bwriadu cefnogi a mabwysiadu dull mwy hyblyg wedi'i dargedu er mwyn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaeth yn well, gan ddatblygu rhaglenni a all ymateb yn gyflym i farchnadoedd llafur lleol neu newidiadau mewn polisi a darpariaeth. Caiff hyn ei ddangos trwy weithrediad Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a sefydlwyd i ysgogi ymatebion yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol.

- 2.5 Nod y Warrant i Bobl Ifanc yw rhoi cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant neu i'w cynorthwyo o ran hunangyflogaeth. Mae'r asesiad o effaith ar gyfer y Warrant i Bobl Ifanc<sup>7</sup> yn trafod rhai o'r ffactorau ychwanegol sy'n ymwneud â'r warrant i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig. Un o'r ystyriaethau allweddol yw sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael, gan nodi bod cymunedau sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yn wledig eu natur. Ystyriaeth arall a amlygwyd yw bod ardaloedd gwledig Cymru yn tueddu i fod yn llai amrywiol yn economaidd, gyda mwy o ddibyniaeth ar amaethyddiaeth a'r economi sylfaenol o gymharu ag ardaloedd trefol a lled-drefol yng Nghymru.
- 2.6 Mae cynllun gweithredu economaidd '[Ffyniant i Bawb](#)' hefyd yn cydnabod bod llai o amrywiaeth economaidd mewn ardaloedd gwledig a'i nod yw mynd i'r afael â hyn drwy gynorthwyo awdurdodau lleol a busnesau mewn ardaloedd gwledig i arallgyfeirio a manteisio ar gadwyni cyflenwi.
- 2.7 Mae'r dull hwn o fynd i'r afael â'r economi wledig hefyd yn cael ei ailadrodd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Ardaloedd Gwledig (2020–2040)<sup>8</sup>, gan amlygu y gall cofleidio arallgyfeirio economaidd drwy ddatblygu canolfannau a chlystyrau ar gyfer gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig wella ffyniant cyflogaeth yr ardaloedd hyn.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2022) [Y Warrant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith](#).

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (2019) [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 Papur Esboniadol – Ardaloedd Gwledig](#).

## Tystiolaeth o raglenni eraill

- 2.8 Un o'r amcanion gwerthuso sy'n aml yn cael ei osod ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd a chymorth cyflogaeth Llywodraeth Cymru yw deall a oes unrhyw wahaniaethau o ran darparu rhaglenni rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Daw tystiolaeth o'r gwahaniaethau hyn yn fwyaf cyffredin o gyfweiliadau â rhanddeiliaid sydd wedi nodi heriau penodol sy'n unigryw i ddarparu cymorth cyflogadwyedd mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd prin eu poblogaeth. Mae rhai gwerthusiadau hefyd yn darparu tystiolaeth feintiol o'r gwahaniaethau rhwng darparu cymorth gwledig a threfol drwy ddadansoddi canlyniadau'r rhai sy'n cael cymorth.
- 2.9 Mae pwyntiau dysgu allweddol, o werthusiadau rhaglenni eraill, mewn perthynas â chymorth cyflogadwyedd mewn lleoliadau trefol a gwledig yn cynnwys:
- **[Cyfrifon Dysgu Personol](#)**: Nod y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yw darparu cyllid er mwyn i unigolion mewn diwydiannau â phrinder sgiliau gael derbyn hyfforddiant galwedigaethol. Nododd y gwerthusiad fod rhanddeiliaid yn teimlo bod mynediad at hyfforddiant ar-lein ar ôl pandemig COVID-19 wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau rhwystrau i ddysgwyr gwledig, gan y gallent dderbyn hyfforddiant ar-lein.
  - **[Twf Swyddi Cymru + \(TSC+\)](#)**: Mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan Estyn ar ddealltwriaeth yn hydref 2023 ar raglen TSC+, nodwyd bod darpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn creu rhai heriau gan fod amseroedd teithio hir a thrafnidiaeth gyhoeddus wael neu annibynadwy wedi arwain mewn rhai achosion at ddod â darpariaeth i ben mewn ardaloedd gwledig oherwydd niferoedd isel o gyfranogwyr. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i ennyn diddordeb dysgwyr mewn dysgu o bell, teimlwyd bod diffyg cymorth dysgu a chymorth wyneb yn wyneb yn golygu nad oedd cyfranogwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy ynysig yn aml yn ymgysylltu'n effeithiol â'r rhaglen.
  - **[ReAct III](#)**: Yn rhedeg rhwng 2015 a 2019, roedd ReAct III yn cynnig cymorth i unigolion a oedd wedi colli eu gwaith yn ddiweddar trwy grantiau hyfforddi a chymorth arall i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Canfu'r gwerthusiad fod

canlyniadau cyflogaeth ychydig yn uwch mewn ardaloedd trefol (81 y cant yn erbyn 77 y cant mewn ardaloedd gwledig) ac mai'r rhwystr canfyddiedig mwyaf i gyflogaeth yn achos ymatebwyr gwledig oedd diffyg swyddi priodol yn yr ardal yr oeddent yn byw ynddi. Roedd y rheini mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o newid eu swydd neu eu galwedigaeth na'r rheini mewn ardaloedd gwledig — dywedodd 47 y cant o ymatebwyr gwledig eu bod wedi llwyddo i gael yr un rôl swydd neu alwedigaeth o gymharu â 30 y cant o ymatebwyr trefol ar ôl cael cymorth ReAct. At hynny, roedd ymatebwyr gwledig (47 y cant) yn fwy tebygol o gael swydd â chyflog uwch nag ymatebwyr trefol (30 y cant) a lled-drefol (38 y cant) ar ôl cael cymorth ReAct<sup>9,10</sup>.

- **Cymunedau am Waith a Mwy**: Mae CaW+ yn darparu cymorth ymgynghorol arbenigol ar gyflogaeth a mentora dwys i bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur. Yn yr un modd â'r Cyfrifon Dysgu Personol a TSC+, teimlodd y rhanddeiliaid fod darpariaeth cymorth ar-lein yn ystod pandemig COVID-19 wedi helpu i leihau rhwystrau i fynediad i gwsmeriaid gwledig.

---

<sup>9</sup> Pan ofynnwyd iddynt am gyflog eu rôl newydd, nododd 47 y cant o ymatebwyr gwledig, 38 y cant o ymatebwyr lled-drefol a 30 y cant o ymatebwyr trefol fod eu swydd newydd yn talu'n well na'r swydd a oedd ganddynt cyn cael cymorth ReAct.

<sup>10</sup> Noder na chafodd y gwahaniaeth rhwng y grwpiau ei brofi'n ystadegol.

### **3. Methodoleg**

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y dull methodolegol a ddefnyddiwyd yng ngham olaf gwerthusiad Cymru'n Gweithio sy'n ymwneud â'r papur hwn. Ymhellach, mae'r adran hon yn archwilio'r cyfyngiadau methodolegol ychwanegol a wynebwyd a'r ystyriaethau a gymerwyd.

#### **Dulliau a gweithgareddau ymchwil**

3.2 Mae gwaith maes ac ymchwil ddesg a wnaed i lywio'r papur crynodeb hwn yn cynnwys:

- Adolygiad llenyddiaeth thematig desg ynghylch y gwasgariad daearyddol trefol a gwledig ar draws Cymru a'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn. O fewn yr ymchwil ddesg hon, cynhaliodd ymchwilwyr chwiliadau helaeth ar draws ffynonellau amrywiol gan gynnwys papurau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru, adroddiadau gwerthuso eraill, astudiaethau, a llenyddiaeth gyhoeddedig arall. Ar ôl curadu deunyddiau perthnasol, bu'r ymchwilwyr yn dadansoddi'n feirniadol ac yn crynhoi canfyddiadau allweddol yn ymwneud â Chymru'n Gweithio. Roedd y gwaith o gyfod y wybodaeth hon yn cynnwys nodi patrymau, anghysondebau a bylchau yn y llenyddiaeth a oedd yn bodoli eisoes. Ymgwymerwyd â'r broses hon i roi'r gwerthusiad yn ei gyd-destun er mwyn sicrhau y gall canfyddiadau'r gwerthusiad gyfrannu'n ystyrlon at y corff hwn o waith. Ceir rhestr lawn o'r llenyddiaeth a adolygwyd yn Adran 8.
- Dadansoddiad meintiol manwl o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Mae'r data hyn yn cynnwys pob un o'r 95,164 o gwsmeriaid unigol Cymru'n Gweithio rhwng mis Chwefror 2019 a mis Mawrth 2023 yn ogystal â 120,730 o achosion cwsmeriaid a nodwyd o fewn yr un cyfnod amser. Mewn llawer o achosion, gwnaeth cwsmeriaid gael cymorth gan Cymru'n Gweithio sawl gwaith. Mae'r derminoleg ganlynol wedi'i defnyddio wrth ddisgrifio'r ffordd yr oedd cwsmeriaid yn ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio:



- Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **ymgysylltiad cwsmeriaid**, mae hyn yn cyfeirio at y cwsmeriaid unigryw sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **achosion cwsmeriaid**, dyma gyfanswm nifer yr achosion yr oedd angen cymorth ar gwsmeriaid. Mae staff Cymru'n Gweithio yn aml yn gweithio gyda chwsmer ar sawl achlysur; caiff pob achlysur ei gofnodi fel 'achos'. Gall achos fod yn un diwrnod (e.e. lle mae angen un rhyngweithiad yn unig) neu gall ymestyn i sawl mis (e.e. cymorth ReAct+ i gwsmer a ddiswyddwyd sy'n edrych am gyfeiriad gyrfa newydd). Bydd cyfanswm achosion cwsmeriaid (120,730) yn cynnwys cwsmeriaid a wnaeth ddychwelyd a chael cymorth gan y gwasanaeth sawl gwaith. Mae'n bwysig nodi y gall amgylchiadau cwsmeriaid newid rhwng achosion gwahanol, er enghraifft efallai y bydd gan gwsmer statws marchnad lafur gwahanol neu efallai y bydd yn byw mewn lleoliad gwahanol. Lle mae'r newidynnau hyn yn digwydd, mae'r gwaith dadansoddi wedi'i gynnal fesul achos cymorth yn hytrach na nifer y cwsmeriaid unigol er mwyn deall yn llawn y cymorth y mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu.
- Mae **rhyngweithiadau cwsmeriaid** yn cyfeirio at y dulliau a ddefnyddiwyd gan gwsmeriaid i ymgysylltu â'r gwasanaeth e.e. drwy alwad ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae rhestr lawn o newidynnau'r mathau o ryngweithio a ddadansoddwyd i'w gweld yn Atodiad Tri.
- Cyfweiliadau lled-strwythuredig manwl ar-lein â 12 o staff rheoli a 12 o staff cyflawni i fyfyrion ar fodel presennol Cymru'n Gweithio, ei effeithiolrwydd, ei gryfderau a'i heriau, ac ystyriaethau yn y dyfodol i sicrhau bod y model yn cyflawni ei weledigaeth i fod yn bwynt mynediad i Gymru gyfan. Noder bod y cyfweiliadau'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau a oedd yn cynnwys archwilio mynediad trefol a gwledig i'r gwasanaeth. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng Gorffennaf a Medi 2023.

- Cyfweiliadau lled-strwythuredig manwl ar-lein ag 14 o randdeiliaid mewnol ac allanol i archwilio effeithiolrwydd model presennol Cymru'n Gweithio a rôl Cymru'n Gweithio yn y dyfodol. Fel uchod, noder bod y cyfweiliadau'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau a oedd yn cynnwys archwilio mynediad trefol a gwledig i'r gwasanaeth. Staff Gyrfa Cymru oedd y rhanddeiliaid mewnol, ac unigolion a gyflogwyd y tu allan i Gyrfa Cymru ond a oedd yn gweithio gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio oedd y rhanddeiliaid allanol. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng Awst a Hydref 2023. Dadansoddwyd yr holl ddata ansoddol yn thematig gan ddefnyddio methodolegau theori sylfaenol<sup>11</sup>.
- Arolygon gyda chyfanswm o 167 o gwsmeriaid sydd wedi derbyn cymorth Cymru'n Gweithio i gasglu adborth ar ddewisiadau cymorth cwsmeriaid a'u safbwyntiau ynghylch gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Cynhaliwyd yr arolwg hwn rhwng mis Awst a mis Hydref 2023. Rhoddodd Gyrfa Cymru gysylltiadau i Wavehill ar gyfer 354 o gwsmeriaid a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023 (sy'n gyfradd ymateb o 47 y cant). Dewiswyd y cwsmeriaid hyn am eu bod wedi ymgysylltu'n ystyrlon (o leiaf dri rhyngweithiad) â'r gwasanaeth o fewn tri mis cyn cael cynnal yr arolwg ac felly roeddent mewn sefyllfa dda i roi adborth ar eu profiadau o'r gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod y gwerthusiad yn ymwneud â chwsmeriaid ar draws ystod o wahanol leoliadau daearyddol, dewiswyd cwsmeriaid yng Nghaerdydd, Abertawe, Gwynedd a Wrecsam. O'r 167 o gwsmeriaid a arolygwyd, cynhaliwyd 25 arolwg wyneb yn wyneb mewn canolfannau Cymru'n Gweithio yn y pedwar awdurdod lleol gan dîm ymchwil Wavehill (15 y cant o'r sampl) a chynhaliwyd 142 arolwg ar-lein neu dros y ffôn drwy blatfform arolwg Qualtrics (85 y cant o'r sampl). Dadansoddwyd yr holl ddata meintiol gan ddefnyddio Excel a/neu StatsIQ ar blatfform Qualtrics.

---

<sup>11</sup> Bryman, A., [Quantity and Quality in Social Research](#), 1998, a Charmaz, K., [Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods](#), yn N.K. Denzin a Y.S. Lincoln (gol.) Handbook of Qualitative Research 2nd Edition, 2000.

## Cyfyngiadau ac ystyriaethau

- 3.3 Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith, er bod yr adroddiad hwn wedi cynnal amrywiaeth o ddadansoddiadau helaeth ar wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen, bod systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a ddefnyddiwyd gan Gyrfa Cymru wedi'u newid yn 2021, sy'n golygu bod rhai newidynnau wedi'u gwaredu a bod opsiynau ychwanegol hefyd wedi'u hychwanegu ar y cam hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r dadansoddiad wedi gallu nodi lle y dylid uno ffynonellau gwybodaeth; er enghraifft, mae rhaglenni blaenorol fel ReAct III ac Access wedi'u cyfuno wrth ffurfio rhaglen newydd ReAct+. Felly, mae'n bosibl na fydd y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, o ddadansoddi gwybodaeth fonitro amrwd ar lefel y rhaglen, yn cyd-fynd â ffigurau adrodd cyfanredol a ddarparwyd gan y gwasanaeth i Llywodraeth Cymru.
- 3.4 Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn diffinio ardal 'drefol' fel ardal gynnyrch â phoblogaeth o 10,000 neu fwy, a chaiff yr holl ardaloedd cynnyrch sy'n weddill eu hystyried yn ardaloedd gwledig<sup>12</sup>.
- 3.5 Cydnabyddir na fyddai categorïddio rhanbarthau ledled Cymru i gategori deuaidd, 'trefol' neu 'wledig', o lawer o ddefnydd ac ni fyddai'n darparu digon o fanylion i archwilio tueddiadau ar draws ystod amrywiol o feysydd. Er mwyn sicrhau bod y gwasgariad amrywiol o ardaloedd daearyddol ledled Cymru yn cael ei nodi'n effeithiol, mae diffiniadau canlynol Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio wrth ddadansoddi er mwyn nodi tueddiadau ehangach:
- Awdurdodau gwledig – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, a Sir Fynwy. Cyfeirir at y rhain yn aml fel y naw awdurdod lleol 'gweddol wledig'.
  - Awdurdodau'r Cymoedd – Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, a Thorfaen. Mae'r rhain wedi'u dewis fel y pum awdurdod sy'n cynnwys rhannau o ardal weithredu Blaenau'r Cymoedd.

---

<sup>12</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) [Dosbarthiad Trefol/Gwledig 2011](#).

- Awdurdodau trefol – Abertawe, Caerdydd, a Chasnewydd. Dyma'r aneddiadau mwyaf yng Nghymru.
- Awdurdodau eraill – Sir y Fflint, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg<sup>13</sup>.

3.6 Yn ychwanegol at y dosbarthiadau bras uchod, caiff disgrifiadau manylach eu darparu yn ôl lleoliad y cwsmer yn seiliedig ar gategoreiddio lleoliad y cwsmeriaid. Mae Tabl 2.1 ar y dudalen nesaf yn rhoi manylion y dosbarthiad manwl sy'n cael ei roi i bob dangosydd daearyddol. Noder bod y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi mabwysiadu'r ddau fath o ddsbarthiad daearyddol i sicrhau bod tueddiadau trefol a gwledig yn cael eu harchwilio'n gywir.

**Tabl 2.1: Dosbarthiad dangosyddion daearyddol<sup>14</sup>**

<b>Dangosyddion daearyddol manwl</b>	<b>Dosbarthiad</b>
Cytref fach drefol	Trefol
Cytref fawr drefol	Trefol
Dinas a thref drefol	Trefol
Dinas a thref drefol mewn lleoliad gwasgarog	Maestrefol
Tref wledig a'r cyrion	Maestrefol
Tref wledig a'r cyrion mewn lleoliad gwasgarog	Maestrefol
Pentref gwledig	Gwledig hygyrch
Pentref gwledig mewn lleoliad gwasgarog	Gwledig hygyrch
Pentrefan gwledig ac anheddau ynysig	Gwledig hygyrch
Pentrefan gwledig ac anheddau ynysig mewn lleoliad gwasgarog	Gwledig ynysig

Ffynhonnell: Dosbarthiad trefol/gwledig SYG 2011

3.7 Noder bod cwsmeriaid sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru wedi'u heithrio o ddadansoddiadau teipoleg awdurdodau lleol gan fod y rhain yn benodol i Gymru. Felly, byddai'n anghywir eu cynnwys o dan gategori ychwanegol oherwydd y nifer fach o gwsmeriaid y mae hyn yn berthnasol iddynt (n=158) a'r ffaith bod y cwsmeriaid hynny wedi'u lleoli mewn mathau amrywiol o ddaearyddiaeth. Mae'r deipoleg fanwl yn seiliedig ar ddata lefel ward ac felly mae cwsmeriaid sydd wedi'u lleoli yn Lloegr yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad i gasglu eu profiadau yn seiliedig ar y mathau hyn o ddaearyddiaeth.

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru (2008) '[Cymru wledig](#)' - Diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy.

<sup>14</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) [Dosbarthiad trefol/gwledig 2011](#).


3.8 Fel yr amlygwyd uchod, cynhaliwyd arolygon cwsmeriaid wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Gwynedd i sicrhau bod y gwerthusiad yn ymgysylltu â chwsmeriaid ar draws ystod o leoliadau daearyddol gwahanol. Er bod hyn wedi galluogi'r gwerthusiad i gael ystod eang o adborth ar draws ardaloedd penodol, efallai nad yw'n gynrychioliadol o'r garfan ehangach o gwsmeriaid. Yn yr un modd, er bod cyfweiliadau ar-lein a thros y ffôn wedi eu cynnal i sicrhau bod canfyddiadau o ddarpariaeth o bell rhaglen Cymru'n Gweithio yn cael eu harchwilio, roedd mwyafrif yr holl gwsmeriaid a gyfwelwyd wedi bod i safle Cymru'n Gweithio (95 y cant; 158/167). O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw canfyddiadau'r arolwg yn gynrychioliadol o gwsmeriaid a ddefnyddiodd y gwasanaeth o bell yn unig.

## 4. Trosolwg o Arlwy'r Gwasanaeth

### Y galw am gymorth gan gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig a threfol

4.1 Mae bron i draean o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn byw mewn awdurdodau gwledig, ac mae bron i chwarter y cwsmeriaid yn byw mewn awdurdodau trefol neu yn awdurdodau'r Cymoedd (Ffigur 4.1). Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r boblogaeth ehangach, ac amcangyfrifir bod 30.5 y cant o boblogaeth Cymru yn byw mewn awdurdodau lleol gwledig<sup>15</sup>. O ystyried bod awdurdodau lleol wedi'u cwmpasu'n gymesur, ynghyd â dosbarthiad cwsmeriaid ar draws ystod o ardaloedd trefol a gwledig, mae'n ymddangos bod Cymru'n Gweithio yn cwmpasu ystod amrywiol o ddaearyddiaeth ledled Cymru yn effeithiol.

**Ffigur 4.1: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio**




Ffynhonnell: Data cyfrifiad (2021)<sup>16</sup> a gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=85,965 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Nid yw hyn yn cynnwys pan nad yw lleoliad cwsmer yn hysbys na lleoliadau cwsmeriaid y tu allan i Gymru. Yn achos cwsmeriaid sydd wedi symud ar draws mathau o awdurdod (n=345), mae'r math cyntaf o awdurdod a gofnodwyd yn cael ei restru fan yma. Noder: oherwydd talgrynnu, gall cyfansymiau fod yn fwy na 100%.

<sup>15</sup> Prifysgol Aberystwyth (2021) [A Rural Vision for Wales](#).

<sup>16</sup> SYG (2022) [Economic activity status](#).

4.2 Wrth archwilio disgrifiadau manylach o arlwy'r gwasanaeth mewn lleoliadau trefol a gwledig, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid sydd wedi ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn byw mewn ardaloedd trefol. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y poblogaethau uwch mewn ardaloedd trefol; er enghraifft, mae trigolion Caerdydd yn cyfrif am 10.5 y cant o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, dylid ystyried a yw hyn yn unol â phatrymau angen a diweithdra ledled Cymru.


**Ffigur 4.2: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (N=86,198 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Nid yw hyn yn cynnwys y cwsmeriaid hynny nad yw eu lleoliad yn hysbys.

4.3 Ym mis Hydref 2023, mae gan Cymru'n Gweithio 90 o safleoedd cydleoli sefydledig a 110 o safleoedd cydleoli partner sefydledig (gweler Ffigurau 4.3 a 4.4 ar y dudalen nesaf). Roedd dros hanner yr holl bartneriaid cydleoli yn safleoedd Canolfan Byd Gwaith Lleol (57.3 y cant).


**Ffigur 4.3: Map o safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio**



Ffynhonnell: Safleoedd cydleoli (n=90) fel yr adroddwyd gan dîm rheoli cenedlaethol Cymru'n Gweithio, y boblogaeth oedran gweithio yng Nghyfrifiad 2021 (n=3,107,588).



**Ffigur 4.4: Cyfran partneriaid safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio**




Ffynhonnell: Partneriaid safle cydleoli fel yr adroddwyd gan dîm rheoli cenedlaethol Cymru'n Gweithio (n=110).

- 4.4 Nododd staff rheoli a chyflawni mewn cyfweiliadau fod staff Cymru'n Gweithio hefyd yn gwneud gwaith allgymorth ym mhob rhan o Gymru, yn bennaf drwy gynnal digwyddiadau allgymorth mewn canolfannau cymunedol, safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith a llyfrgelloedd. At hynny, amlygwyd mewn cyfweiliadau bod poblogaethau bach mewn ardaloedd gwledig yn aml yn golygu nad oedd digon o alw i gyfiawnhau lleoli aelod o staff mewn ardaloedd penodol am fwy nag un diwrnod yr wythnos, neu i barhau i ddefnyddio lleoliad ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod adolygu tri mis. Nododd y staff fod pandemig COVID-19 wedi rhoi cyfle iddynt ailwerthuso rhai o'r lleoliadau ffisegol yr oeddent wedi bod yn eu defnyddio o'r blaen, gan ddewis atal gwasanaethau lle'r oedd nifer yr ymwelwyr yn wael a threialu lleoliadau newydd wrth i gyfyngiadau gael eu codi.
- 4.5 Mae gwybodaeth fonitro'r rhaglen yn dangos bod rhai gwahaniaethau yn y galw am gymorth rhwng awdurdodau lled wledig ac awdurdodau trefol, awdurdodau'r Cymoedd ac awdurdodau eraill yng Nghymru. Wrth ymgysylltu, gofynnir i'r cwsmeriaid pa iaith sydd orau ganddynt ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig a llafar. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.5 a Ffigur 4.6, roedd cwsmeriaid Cymru'n Gweithio mewn awdurdodau gwledig yn fwy tebygol na chwsmeriaid mewn awdurdodau trefol o ddewis y Gymraeg fel eu dewis iaith lafar ac ysgrifenedig ar


gyfer derbyn cymorth. Fodd bynnag, o'u dadansoddi fesul awdurdod lleol, mae'n ymddangos bod y ffigurau hyn wedi'u gwyro ar i fyny gan Wynedd ac Ynys Môn lle, er enghraifft, nododd 29.0 y cant a 15.1 y cant yn y drefn honno mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith lafar. Fel yr amlygwyd yn Adran 2, Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Nid yw'n syndod felly bod y galw am gymorth Cymru'n Gweithio yn y Gymraeg ar ei uchaf yn yr awdurdodau lleol hyn.

**Ffigur 4.5: Dewis iaith lafar cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=73,381 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys lle na roddwyd gwybod am y dewis iaith neu lle na chafodd data ar awdurdod lleol cwsmeriaid eu hadrodd neu lle nodwyd eu bod y tu allan i Gymru. Yn achos cwsmeriaid a oedd wedi symud ar draws mathau o awdurdod (n=345), y lleoliad cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer sy'n cael ei gynrychioli fan yma.


**Ffigur 4.6: Dewis iaith ysgrifenedig cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=73,377 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys lle na roddwyd gwybod am y dewis iaith neu lle na chafodd data ar awdurdod lleol cwsmeriaid eu hadrodd neu lle nodwyd eu bod y tu allan i Gymru. Yn achos cwsmeriaid a oedd wedi symud ar draws mathau o awdurdod o 2019–2023 (n=345), y lleoliad cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer sy'n cael ei gynrychioli fan yma.


4.6 Mae tystiolaeth o fwy yn dewis y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig hefyd i'w gweld yn y teipolegau trefol/gwledig manylach a nodir yn Ffigurau 4.7 a 4.8. Fel y nodwyd uchod, mae'r gyfran uwch sy'n dewis y Gymraeg mewn lleoliadau gwledig hygyrch ac ynysig yn debygol o fod wedi'i gogwyddo tuag at y gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

**Ffigur 4.7: Dewis iaith lafar cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol–gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=73,579 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys unigolion lle na chofnodwyd data ar y deipoleg drefol/gwledig na dewis iaith. Yn achos cwsmeriaid y newidiodd eu teipolegau o 2019–2023 (n=510), y lleoliad cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer sy'n cael ei gynrychioli fan yma.

**Ffigur 4.8: Dewis iaith ysgrifenedig cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol–gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=73,575 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys unigolion lle na chofnodwyd data ar y deipoleg drefol/gwledig na dewis iaith. Yn achos cwsmeriaid y newidiodd eu teipolegau o 2019–2023 (n=510), y lleoliad cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer sy'n cael ei gynrychioli fan yma.

- 4.7 Y llwybrau atgyfeirio mwyaf cyffredin i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn nhrefn poblogrwydd, oedd hunanatgyfeirio, y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, CaW, gwasanaethau carchardai, a choleg. Mae'r rhain yn cyfateb i 87 y cant o gyfanswm yr atgyfeiriadau i wasanaeth Cymru'n Gweithio; fodd bynnag, mae gwahaniaethau clir rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mae Tabl 4.1 yn dangos bod cyfran sylweddol lai o gwsmeriaid o awdurdodau gwledig wedi eu hatgyfeirio eu hunain at wasanaeth Cymru'n Gweithio nag o fathau eraill o awdurdodau (38.5 y cant mewn ardaloedd gwledig o gymharu â 49.6 y cant mewn ardaloedd trefol). Yn ogystal, mae'r tabl yn dangos bod cyfran uwch o gwsmeriaid o awdurdodau gwledig wedi'u hatgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith (32.9 y cant mewn ardaloedd gwledig o gymharu â 23.0 y cant mewn ardaloedd trefol). Roedd profion ystadegol i ganfod a oedd y ffynhonnell atgyfeirio yn wahanol yn dibynnu ar deipoleg yr awdurdod yn dangos bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, gyda chyfran is na'r disgwyl o gwsmeriaid gwledig yn hunanatgyfeirio a chyfran uwch na'r disgwyl o gwsmeriaid a atgyfeiriwyd drwy'r Ganolfan Byd Gwaith yn dod o ardaloedd gwledig<sup>17</sup>.
- 4.8 Gall llai o hunanatgyfeiriadau gan gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig fod o ganlyniad i sawl ffactor. Er enghraifft, gallai llai o hunanatgyfeiriadau ddangos bod gwaith marchnata i hysbysu darpar gwsmeriaid am wasanaeth Cymru'n Gweithio, a sut y gallant gael mynediad uniongyrchol i'r gwasanaeth, yn llai llwyddiannus o ran cyrraedd unigolion mewn ardaloedd gwledig. Gall seilwaith trafndiaeth a digidol gwael mewn ardaloedd gwledig hefyd greu rhwystrau ychwanegol i ddarpar gwsmeriaid gwledig sydd am gael mynediad i'r gwasanaeth. Yn ogystal, mae'n bosibl bod llai o hunanatgyfeiriadau yn yr ardaloedd hyn oherwydd bod partneriaid eraill yn llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid gwledig a'u hatgyfeirio i'r cymorth priodol.

---

<sup>17</sup> Gwerthoedd prawf Chi-sgwâr:  $n=85,657$ ,  $\chi^2=1,789.52$ , lle mae  $df=18$  a gwerth- $p < 0.001$ .

**Tabl 4.1: Llwybr atgyfeirio i mewn i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg awdurdod**

Llwybr	Awdurdodau trefol (N=21,012)	Awdurdodau'r Cymoedd (N=20,363)	Awdurdodau gwledig (N=25,646)	Awdurdodau eraill (N=18,636)
Hunanatgyfeirio	49.6%	45.0%	38.5%	48.7%
Canolfan Byd Gwaith	23.0%	30.9%	32.9%	26.8%
Tîm addysg Gyrfa Cymru	8.0%	6.6%	7.6%	7.2%
Cymunedau am Waith	1.4%	2.5%	3.2%	1.2%
Carchar	3.2%	1.4%	2.0%	2.3%
Coleg	1.2%	1.4%	3.6%	1.4%
Arall	13.5%	12.2%	12.2%	12.4%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=85,657 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys ffynonellau atgyfeirio anhysbys ac mae'n crynhoi 21 o ffynonellau atgyfeirio llai poblogaidd o dan 'Arall'<sup>18</sup>. Noder: oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y cyfansymiau yn cyfateb i 100%.

4.9 Mae asesu llwybrau atgyfeirio Cymru'n Gweithio drwy deipolegau trefol/gwledig manwl yn cadarnhau bod ei bod yn fwy cyffredin i gwsmeriaid mewn ardaloedd trefol hunanatgyfeirio at wasanaeth Cymru'n Gweithio na chwsmeriaid mewn ardaloedd eraill (46.5 y cant mewn ardaloedd trefol o gymharu â 41.7 y cant mewn ardaloedd maestrefol, 40.7 y cant mewn ardaloedd gwledig hygyrch, a 40.8 y cant mewn ardaloedd gwledig ynysig). Mewn cymhariaeth, mae cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig ynysig yn cael eu hatgyfeirio'n amlach drwy'r Ganolfan Byd Gwaith o gymharu â chwsmeriaid mewn ardaloedd eraill (36.9 y cant), sy'n syndod o ystyried y pellter mwy yn aml rhwng safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith a chwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig ynysig (o gymharu â chwsmeriaid trefol).

<sup>18</sup> Mae ffynonellau eraill yn cynnwys: Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Asiantaeth Cymorth, Gwasanaeth Ieuencid, Ysgol, Darpariaeth Awdurdod Lleol, Hyfforddi Cyflogadwyedd, Cymorth Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Sioe Deithiol / Digwyddiad, Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cyflogwr, Gwasanaeth Prawf, Sefydliad Gwirfoddol, Taith Ieuencid y Ganolfan Byd Gwaith, Meddyg Teulu / Gwasanaeth Iechyd, PaCE, Darparwr Hyfforddiant, Busnes Cymru, Cyngor ar Bopeth, Prifysgol, ac Arall (manyllion pellach heb eu nodi).


**Tabl 4.2: Llwybr atgyfeirio i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl**

Llwybr	Trefol (N=60,499)	Maestrefol (N=14,987)	Gwledig hygyrch (N=8,729)	Gwledig ynysig (N=1,673)
Hunanatgyfeirio	46.5%	41.7%	40.7%	40.8%
Canolfan Byd Gwaith	27.4%	32.3%	30.0%	36.9%
Tîm addysg Gyrfu Cymru	7.3%	7.9%	6.7%	6.9%
Cymunedau am Waith	2.2%	2.2%	1.9%	1.7%
Carchar	1.8%	2.1%	6.8%	0.4%
Coleg	2.0%	1.9%	2.5%	2.6%
Arall	12.9%	12.0%	11.4%	10.8%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (N=85,888 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys ffynonellau atgyfeirio anhysbys ac mae'n crynhoi 21 o ffynonellau atgyfeirio llai poblogaidd o dan 'Arall'. Noder: oherwydd talgrynnu, gall cyfansymiau fod yn fwy na 100%.

4.10 Er bod cyfran ychydig yn uwch o gwsmeriaid a ymunodd o ardaloedd gwledig ynysig yn ddi-waith (59.8 y cant o gymharu â 53.5 y cant mewn ardaloedd gwledig hygyrch, 56.9 y cant mewn ardaloedd maestrefol a 56.7 y cant mewn ardaloedd trefol), roedd cwsmeriaid di-waith hefyd yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith yn yr ardaloedd hyn (Ffigur 4.9 isod).

**Ffigur 4.9: Cyfran y cwsmeriaid di-waith a atgyfeiriwyd drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, yn ôl teipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=48,669 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder bod hyn yn cyfeirio at gwsmeriaid a oedd yn ddi-waith adeg ymgysylltu â'r gwasanaeth ac nid yw'n cynnwys cwsmeriaid lle na chofnodwyd data ar y deipoleg drefol/gwledig. Yn achos cwsmeriaid y newidiodd eu teipolegau o 2019–2023 (n=510), y lleoliad cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer sy'n cael ei gynrychioli fan yma.

- 4.11 Gan mai'r Ganolfan Byd Gwaith yw'r safle cydleoli mwyaf cyffredin, mae'n bosibl bod cwsmeriaid mewn lleoliadau gwledig yn cael mynediad i wasanaeth Cymru'n Gweithio drwy'r llwybr hwn am mai dyma'r safle ffisegol mwyaf hygyrch. Roedd profion ystadegol i ganfod a oedd y ffynhonnell atgyfeirio yn wahanol yn dibynnu ar deipoleg rhaniad trefol-gwledig manwl yn dangos bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, gyda chyfran uwch na'r disgwyl o gwsmeriaid yn cael eu hatgyfeirio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith yn dod o ardaloedd gwledig ynysig<sup>19</sup>.
- 4.12 Mae Ffigur 4.10 yn dangos bod cyfran uwch o gwsmeriaid a oedd yn cael cymorth mewn ardaloedd gwledig yn 50 oed neu'n hŷn, tuedd a oedd yn fwy amlwg wrth archwilio'r data yn ôl teipoleg drefol/gwledig fanwl yn Ffigur 4.11 — roedd 21.7 y cant o gwsmeriaid o ardaloedd gwledig ynysig yn 50+ oed o gymharu â 13.0 y cant o'r rhai o ardaloedd trefol. Mae hyn yn gyson â data'r Cyfrifiad o 2021, lle mae gan awdurdodau gwledig ac awdurdodau lleol eraill boblogaethau hŷn ar gyfartaledd o gymharu ag awdurdodau trefol neu awdurdodau'r Cymoedd. Roedd profion ystadegol i ganfod a oedd grwpiau oedran yn amrywio yn dibynnu ar deipoleg yr awdurdod yn dangos bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, gyda chyfran uwch na'r disgwyl o gwsmeriaid yn y categori oedran 50+ mewn ardaloedd gwledig<sup>20</sup>.


---

<sup>19</sup> Gwerthoedd prawf Chi-sgwâr:  $n=85,888$ ,  $\chi^2=1,178.12$ , lle mae  $df=18$  a gwerth- $p < 0.001$ .

<sup>20</sup> Gwerthoedd prawf Chi-sgwâr:  $n=85,945$ ,  $\chi^2=494.45$ , lle mae  $df=9$  a gwerth- $p < 0.001$ .




**Ffigur 4.10: Oedran, yn ôl teipoleg awdurdod**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=85,945 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder na chynhwyswyd arsylwadau o'r tu allan i Gymru yn ogystal â sylwadau annyls neu wag. Yn yr achosion hynny lle cofnodwyd unigolion mewn mwy nag un ystod oedran (N=2,679) neu fath o awdurdod lleol (N=345), y grŵp oedran a'r lleoliad cyntaf a gofnodwyd fan yma.

**Ffigur 4.11: Oedran, yn ôl teipoleg rhaniad trefol–gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=86,178 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder na chynhwyswyd arsylwadau o'r tu allan i Gymru yn ogystal â sylwadau annyls neu wag. Yn yr achosion hynny lle cofnodwyd unigolion mewn mwy nag un ystod oedran (N=2,679) neu fath gwledig trefol (N=510), y grŵp

oedran a'r lleoliad cyntaf a gofnodwyd fan yma. Noder: oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y cyfansymiau yn cyfateb i 100%.

4.13 Mae yna hefyd gyfres o ffactorau sy'n dangos ychydig iawn o wahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol Cymru. Mae Tabl 4.3 yn dangos bod statws cyflogaeth cwsmeriaid cyn ymrestru yng ngwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ymddangos yn gyson ar draws teipolegau trefol/gwledig. Daw'r unig wahaniaeth i'r amlwg ymhlith awdurdodau'r Cymoedd, sydd â chyfran ychydig yn uwch o gwsmeriaid yn ddi-waith (60.0 y cant) cyn ymuno â gwasanaeth Cymru'n Gweithio o gymharu ag awdurdodau trefol (53.9 y cant), gwledig (55.9 y cant) ac awdurdodau eraill (56.2 y cant). Caiff hyn ei gydbwysu gan y ffaith bod cyfran ychydig yn is o bobl yn economaidd anweithgar cyn ymuno â gwasanaeth Cymru'n Gweithio o gymharu â'r tri math arall o awdurdod. Dangosodd profion ystadegol i ganfod a oedd statws y cwsmer wrth ymuno â gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn amrywio yn dibynnu ar deipoleg yr awdurdod fod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, gyda chyfran uwch na'r disgwyl o gwsmeriaid yn ddi-waith yn awdurdodau'r Cymoedd<sup>21</sup>. I roi cyd-destun, rhwng 2019 a 2023, y gyfradd ddiweithdra gyfartalog ymhlith awdurdodau'r Cymoedd ac awdurdodau trefol oedd 4.5 y cant, yn y drefn honno, o gymharu â 3.6 y cant mewn awdurdodau gwledig a 3.3 y cant mewn awdurdodau eraill<sup>22</sup>.

**Tabl 4.3: Statws cyflogaeth cwsmeriaid cyn ymrestru, yn ôl teipoleg awdurdod**

	Awdurdodau gwledig (N=25,741)	Awdurdoda u trefol (N=21,101)	Awdurdodau'r Cymoedd (N=20,450)	Awdurdodau eraill (N=18,673)
Di-waith	55.9%	53.9%	60.0%	56.2%
Cyflogedig	20.0%	20.3%	17.5%	20.4%
Anweithgar	6.8%	6.5%	3.8%	5.6%
Gwirfoddoli	0.3%	0.3%	0.2%	0.2%
Prentisiaeth neu hyfforddeiaeth	1.2%	1.5%	1.5%	1.4%
Addysg Bellach	6.7%	6.6%	7.2%	6.6%
Yn yr ysgol	6.4%	7.9%	7.4%	7.5%
Addysg Uwch	0.6%	1.5%	0.4%	0.4%
Anhysbys	0.6%	0.8%	1.0%	0.7%
Arall	1.3%	0.6%	0.8%	0.8%

<sup>21</sup> Gwerthoedd prawf Chi-sgwâr: n=85,965,  $\chi^2=985.92$ , lle mae df=36 a gyda gwerth-p <0.001

<sup>22</sup> Cyfradd ddiweithdra 16–64 oed, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=85,965 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder na chynhwyswyd arsylwadau o'r tu allan i Gymru yn ogystal â sylwadau annilys neu wag. Noder: oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y cyfansymiau yn cyfateb i 100%.

### **Canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o'r arlwy a'i gyrhaeddiad**

- 4.14 Pan ofynnwyd iddynt am gyrhaeddiad cyffredinol Cymru'n Gweithio, teimlai'r rhanddeiliaid yn gyffredinol fod y gwasanaeth wedi llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid trefol a gwledig sydd angen cymorth. Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid hefyd ei bod yn debygol bod y gwasanaeth yn methu â chyrraedd mwy o ddarpar gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Lle'r oedd hyn yn wir, awgrymodd rhanddeiliaid ei bod yn anoddach i staff ymgysylltu'n llwyddiannus ag unigolion mewn ardaloedd gwledig oherwydd seilwaith cymunedol cyfyngedig. Mae diffyg seilwaith yn golygu y gall fod yn fwy heriol i staff sefydlu gweithgarwch allgymorth a phartneriaethau cydleoli. Lle nad yw staff yn gallu sefydlu gweithgarwch allgymorth a phartneriaethau cydleoli, fel arfer mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar allgymorth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- 4.15 Mae anawsterau o ran ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig ledled Cymru wedi'u dogfennu'n eang ar draws ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, fel sy'n cael ei nodi yn Adran 2. I oresgyn yr her hon, mae rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru e.e. Cyfrifon Dysgu Personol a ReAct yn adrodd eu bod wedi gwella eu harlwy ar-lein i wneud y cymorth yn fwy hygyrch.<sup>23</sup> O fewn Cymunedau am Waith a Mwy, mae cyfleoedd i ddefnyddio fan cymorth symudol mewn ardaloedd gwledig i leihau amser staff mewn lleoliadau lle mae nifer cyfyngedig o ymwelwyr hefyd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.<sup>24</sup>
- 4.16 Dywedodd staff a gyfwelwyd hefyd, lle y gallant sefydlu safleoedd cydleoli ac allgymorth mewn ardaloedd gwledig, mai tymor byr yw'r rhain fel arfer oherwydd nifer cyfyngedig o ymwelwyr. Er bod staff yn pwysleisio pwysigrwydd cyrraedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig, roedd nifer isel yr ymwelwyr â safleoedd

---

<sup>23</sup> Mae'n bwysig nodi, yn yr un modd â gwasanaeth Cymru'n Gweithio, bod gwell arlwy cymorth ar-lein mewn rhaglenni eraill hefyd yn cyd-fynd yn aml â phandemig COVID-19.

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru (2023) [Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1: Gwerthusiad Proses a Theori Newid](#).

cydleoli neu allgymorth gwledig yn golygu ei bod yn anodd i reolwyr gyfiawnhau defnyddio adnoddau staff yn y modd hwn yn y tymor hwy.

'Mae yna fylchau mawr o hyd oherwydd natur wledig yr ardal gan fod y cysylltiadau ffyrdd yn wael a thrafnidiaeth gyhoeddus hyd yn oed yn waeth. [Fe wnaethom] agor canolfan [mewn ardal wledig] lle mae lefelau uchel o ddiweithdra ac amddifadedd ond er gwaethaf llawer o weithgarwch allgymorth nid oedden ni'n gallu denu digon o ymwelwyr i'r swyddfa honno i gyfiawnhau ei chadw ar agor.' (**Cyfweliad â staff rheoli a darparu**)

4.17 Cafwyd ymateb cymysg gan staff pan ofynnwyd iddynt am effeithiolrwydd yr arlwy ar-lein o ran denu cwsmeriaid gwledig. Awgrymodd rhai ei fod wedi creu effaith gadarnhaol, yn wyneb y lefelau isel a ddewisodd dderbyn y gwasanaeth pan roeddent wedi ceisio sefydlu lleoliadau ffisegol mewn rhai ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, teimlai eraill nad yw wedi cael fawr o effaith oherwydd darpariaeth band eang gwael mewn ardaloedd gwledig neu oherwydd y byddai'r rhai â llythrennedd digidol gwael yn ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau ar-lein.

4.18 Roedd staff a rhanddeiliaid yn teimlo bod y lleoliadau 'untro' ar gyfer cymorth Cymru'n Gweithio o fudd i lawer o gwsmeriaid<sup>25</sup>. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd mewn adroddiadau strategol, nodwyd bod safleoedd untro yn dal i gael trafferth cyrraedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig:

'Ar y cyfan, rwy'n meddwl [bod y lleoliadau untro] yn dda iawn. Yr unig ardaloedd lle rydyn ni'n cael trafferthion yw ardaloedd gwledig iawn, Powys a Gwynedd yn arbennig. Hyd yn oed pan mae'r [lleoliadau untro] yng nghanol tref, mae rhai pobl yn gorfod dal dau neu dri bws. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn broblem ehangach.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)

4.19 Yn gyffredinol, mae heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig yn awgrymu y dylai darpariaeth yn y dyfodol adolygu'r ffordd orau i'r gwasanaeth dargedu nifer sylweddol o gwsmeriaid tra hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion. Fel a amlygwyd yn yr adroddiad terfynol, mae safleoedd cydleoli yn cael eu penderfynu'n bennaf ar sail mynediad presennol i ardal lle mae galw gan

---

<sup>25</sup> Mae diwrnodau swyddfa untro yn ddigwyddiadau lle mae staff Cymru'n Gweithio yn cynnig sesiynau galw heibio untro er mwyn cyrraedd darpar gwsmeriaid y gallai fod yn heriol iddynt gyrraedd safle parhaol Cymru'n Gweithio.

gwsmeriaid a/neu nifer uchel o ymwelwyr. Er bod y dull hwn yn sicrhau mai dim ond ar safleoedd sy'n parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid yn llwyddiannus y mae Cymru'n Gweithio yn gweithredu, nid yw'r dull hwn o reidrwydd yn targedu'r unigolion y mae angen cymorth Cymru'n Gweithio arnynt fwyaf. Lle'r oedd staff cyflawni'n ystyried bod eu hallgymorth wedi bod yn fwyaf llwyddiannus, roeddent yn aml wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid o fewn cymunedau lleol i allu ymgysylltu ag unigolion mewn amgylcheddau y byddent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus ynddynt. Gall datblygu perthnasoedd ag ystod eang o bartneriaid fod yn arf effeithiol i gyrraedd darpar gyfranogwyr mewn ardaloedd gwledig yn well, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw, i sicrhau bod gan y rhaglen well cyrhaeddiad ledled Cymru.

### **Canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o arlwy'r cymorth o bell**

- 4.20 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod darparu ystod o opsiynau yn golygu cynnal gwasanaeth hyblyg y gellir ei addasu sy'n ymateb i anghenion unigolion. Mae'r dull hwn yn galluogi cwsmeriaid i benderfynu sut yr hoffent ymgysylltu â staff Cymru'n Gweithio:

'Rwy'n meddwl bod yn rhaid i [arlwy'r cymorth wyneb yn wyneb] fod yno. Mae mor bwysig, ond rwy'n meddwl, o ran COVID-19, mae'r arlwy hybrid yn golygu ein bod ni'n dal i allu cynorthwyo heb iddyn nhw orfod dod atom ni. [Mae cael] platfformau eraill yn ychwanegu haen arall o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cwsmeriaid.' **(Cyfweiliad â rhanddeiliad)**

- 4.21 Roedd gan staff rheoli a chyflawni farn gymysg ar arlwy o bell Cymru'n Gweithio, gyda rhai yn nodi ei fod o fudd i gwsmeriaid gwledig oherwydd ei fod yn lleihau teithio. Nododd staff eraill, fodd bynnag, fod yn aml yn llawer gwell gan gwsmeriaid gwledig gael cymorth wyneb yn wyneb gan ei fod yn eu galluogi i ddatblygu perthynas yn haws â staff Cymru'n Gweithio, gan leihau'r risg o ynysigrwydd cymdeithasol. Yn ogystal, pwysleisiwyd yn ystod y cyfweiliadau ei bod yn well gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb i ddechrau a'u bod yn fodlon teithio'n bell mewn ardaloedd gwledig i wneud hynny.


4.22 Canfyddiad cyffredin ymysg staff oedd bod cymorth wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na chymorth o bell wrth fynd i'r afael ag anghenion y mae'r cwsmeriaid yn eu cyflwyno. Yn yr achosion hyn, dywedodd staff a rhanddeiliaid fod cymorth wyneb yn wyneb yn caniatáu iddynt weld y 'darlun cyfan' gyda chwsmer, gan gynnwys rhwystrau posibl na fyddant o bosibl yn dod yn ymwybodol ohonynt o bell. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith bod llawer o staff yn canmol y cynnydd yn y cymorth o bell sy'n cael ei gynnig gan ei fod yn cynnig mwy o ddewis ac yn lleihau'r baich teithio ar staff a chwsmeriaid. Mae cynnig cymorth Cymru'n Gweithio o bell wedi sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael gafael ar gymorth sut bynnag yr hoffent ei gael, gan ddileu'r baich teithio posibl iddynt hefyd. Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad gwerthuso terfynol, mae'n debygol bod cyfuniad o gymorth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb ac o bell yn ddull effeithiol a chytbwys i'r gwasanaeth ddarparu cymorth. Mae hyn yn galluogi staff a chwsmeriaid i ddatblygu perthnasoedd da wyneb yn wyneb ac yna dilyn i fyny o bell i leddfu pwysau teithio.

#### **Myfyrdodau cwsmeriaid ar y dull o gynnig cymorth a'i effaith**

4.23 Mae tystiolaeth o'r wybodaeth fonitro'n dangos bod mwy o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio, dros oes y rhaglen, wedi cael cymorth o bell yn unig nag wyneb yn wyneb yn unig. Mae pandemig COVID-19 yn effeithio ar y canfyddiad hwn, gyda 65 y cant o gyfanswm y rhyngweithiadau o bell yn unig yn digwydd yn 2020 a 2021. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth fonitro hefyd yn dangos bod rhyngweithiadau o bell wedi parhau i fod yn boblogaidd yn dilyn y pandemig — bu i 45.0 y cant o achosion cymorth cwsmeriaid yn 2022 a 35.9 y cant yn 2023 ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio drwy ddulliau o bell yn unig o gymharu â 6.5 y cant yn 2019. Heb dystiolaeth bellach, nid yw'n bosibl sefydlu beth sy'n gyrru'r penderfyniad i gael cymorth o bell. Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r penderfyniad hwn fod oherwydd pa mor hawdd oedd cael gafael ar gymorth o bell a/neu addaswyd y gwasanaeth o bell ar wahanol gamau cymorth; er enghraifft, gallai galwad ffôn fod yn ffordd fwy priodol o ymgysylltu â'r gwasanaeth i ddechrau cyn cael cymorth wyneb yn wyneb wedyn.

4.24 Mae Ffigur 4.12 yn dangos bod cwsmeriaid mewn awdurdodau gwledig yn fwy tebygol o gael cymorth o bell yn unig gan Cymru'n Gweithio na chwsmeriaid o awdurdodau trefol. Mae'r nifer sy'n derbyn cymorth wyneb yn wyneb yn unig hefyd yn is ymhlith cwsmeriaid mewn awdurdodau gwledig o gymharu â mathau eraill o awdurdodau.


**Ffigur 4.12: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=67,316 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys rhyngweithiadau na chofnodwyd unrhyw ddata daearyddol ar eu cyfer neu lle cofnodwyd lleoliad daearyddol y tu allan i Gymru. Mae hyn hefyd yn eithrio unigolion nad ydynt wedi cael unrhyw rhyngweithiadau cofnodedig gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio ers y cyswllt cychwynnol. Yn achos unigolion sydd wedi symud ar draws mathau o awdurdod (n=345), defnyddiwyd y math o awdurdod cyntaf a gofnodwyd fan yma.

4.25 Ar ôl 2021 mae poblogrwydd parhaus yr arlwy o bell, drwy gymorth o bell yn unig a chymorth cymysg, yn awgrymu bod galw clir am y math hwn o gymorth. Mae Ffigur 4.13 yn dangos mai cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig ynysig oedd yn cael cymorth o bell amlaf. Mae hyn yn ategu awgrymiadau staff a rhanddeiliaid bod yr arlwy o bell o fudd yn arbennig i gwsmeriaid gwledig, ond gallai hefyd amlygu heriau y mae cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig yn eu hwynebu wrth geisio cael cymorth wyneb yn wyneb.

**Ffigur 4.13: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg rhaniad trefol–gwledig manwl**



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (N=67,495 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys rhyngweithiadau na chofnodwyd unrhyw ddata daearyddol ar eu cyfer. Mae hyn hefyd yn eithrio unigolion nad ydynt wedi cael unrhyw rhyngweithiadau cofnodedig gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio ers y cyswllt cychwynnol. Yn achos unigolion sydd wedi symud ar draws mathau gwledig-trefol (n=510), defnyddiwyd y math gwledig-trefol cyntaf a gofnodwyd fan yma. Noder: oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y cyfansymiau yn cyfateb i 100%.

4.26 Ar gyfartaledd, mae pob cwsmer Cymru'n Gweithio wedi cael dau rhyngweithiad â'r gwasanaeth. Fel sy'n cael ei amlygu yn Nhabl 4.4 ar y dudalen nesaf, ar draws yr holl fathau o awdurdodau lleol, cymorth dros y ffôn oedd y rhyngweithiad mwyaf cyffredin â gwasanaeth Cymru'n Gweithio (50 y cant yn gyffredinol ledled Cymru). O ystyried pwysau oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol, e.e. pwysau oherwydd yr argyfwng costau byw, mae'n gredadwy bod rhai cwsmeriaid yn dewis cymorth ffôn gan Cymru'n Gweithio yn achos o leiaf rhywfaint o'u cymorth i leihau costau teithio.<sup>26</sup> At hynny, mae Tabl 4.4 yn dangos bod nifer uwch o gwsmeriaid gwledig yn ymgysylltu dros y ffôn (52 y cant) o gymharu â chwsmeriaid trefol (47 y cant). Fodd bynnag, gallai rhyngweithiadau dros y ffôn gael eu hysgogi gan y galw am gymorth wyneb yn wyneb, gydag ychydig yn llai o gwsmeriaid gwledig ac ychydig yn fwy o gwsmeriaid trefol yn rhyngweithio â gwasanaeth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb.

<sup>26</sup> Noder hefyd bod llinell gymorth ffôn Cymru'n Gweithio yn rhad ac am ddim i'w defnyddio.



**Tabl 4.4: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol**

Math o rhyngweithiad	Awdurdodau gwledig	Awdurdodau trefol	Awdurdodau'r Cymoedd	Awdurdodau eraill	Cyfanswm Cymru
Ffôn	52%	47%	52%	49%	50%
Wyneb yn wyneb	32%	35%	33%	33%	33%
E-bost	11%	12%	10%	13%	11%
Negeseuon testun	2%	2%	2%	2%	2%
Fideo	2%	2%	1%	2%	2%
Gwe-sgwrs	1%	1%	1%	1%	1%
Gwasanaeth negeseua	0.2%	0.1%	0.3%	0.2%	0.2%
Llythyr	0.1%	0.1%	0.2%	0.1%	0.1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=67,316 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys rhyngweithiadau na chofnodwyd unrhyw ddata daearyddol ar eu cyfer neu lle cofnodwyd lleoliad daearyddol y tu allan i Gymru. Mae hyn hefyd yn eithrio unigolion nad ydynt wedi cael unrhyw rhyngweithiadau cofnodedig gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio ers y cyswllt cychwynnol. Yn achos unigolion sydd wedi symud ar draws mathau o awdurdod (n=345), defnyddiwyd y math o awdurdod cyntaf a gofnodwyd fan yma.<sup>27</sup>


- 4.27 Mae arolwg cwsmeriaid ar raddfa fach yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o farn cwsmeriaid am y math o gymorth sydd ar gael trwy wasanaeth Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, dylid cofio mai dim ond 167 o ymatebion a gafwyd i'r arolwg hwn o bedwar awdurdod lleol (Caerdydd, Abertawe, Wrecsam a Gwynedd). Felly, mae'n debygol iawn nad yw hyn yn rhoi safbwynt cynrychioliadol o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio.
- 4.28 Dywedodd mwyafrif llethol y cwsmeriaid a holwyd eu bod wedi cael cymorth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb. Mae'r cwsmeriaid a holwyd hefyd wedi rhyngweithio mwy â gwasanaeth Cymru'n Gweithio na'r cwsmer cyffredin.<sup>28</sup> Mae hyn yn wahanol i dueddiadau trosfwaol ymhlith cwsmeriaid a gallai awgrymu nad oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gynrychioliadol o'r garfan ehangach o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio. Yn lle hynny, gallai'r ymatebion i'r arolwg gynnig

<sup>27</sup> O ganlyniad i gwsmeriaid yn symud ar draws mathau o awdurdodau lleol, efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant.

<sup>28</sup> Ar gyfartaledd, mae cwsmeriaid yn rhyngweithio ddwywaith â gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn adran Methodoleg yr adroddiad, roedd y sampl o gwsmeriaid a ddarparwyd i'r tîm gwerthuso wedi rhyngweithio o leiaf dair gwaith.

dealltwriaeth gan is-grŵp o gwsmeriaid sydd wedi defnyddio cymorth Cymru'n Gweithio yn fwy dwys.

**Ffigur 4.14: Sut ydych chi'n defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio?**



Ffynhonnell: Arolwg cwsmeriaid (n=134). Noder bod y cwestiwn hwn yn gwestiwn amlddewis. Cafodd y rhai a nododd eu bod yn cael cymorth wyneb yn wyneb ac o bell eu hailgodio i gategori "y ddau".

4.29 Dywedodd mwyafrif helaeth y cwsmeriaid a holwyd fod cael mynediad i ganolfan neu leoliad untro Cymru'n Gweithio naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'gweddol hawdd' (71 y cant). Mae Tabl 4.5 yn dangos bod y lleoliad daearyddol wedi gwneud gwahaniaeth cyfyngedig i ba mor hawdd yw hi i gael mynediad i ganolfannau neu leoliadau untro Cymru'n Gweithio, gydag ychydig iawn o gwsmeriaid yn dweud bod cael mynediad i ganolfannau neu leoliadau untro yn 'weddol anodd' (tri chwsmer i gyd).

**Tabl 4.5: Pa mor hawdd yw hi i chi gael mynediad at ganolfan / lleoliad untro Cymru'n Gweithio?**

Awdurdod lleol	Hawdd iawn	Gweddol hawdd	Ddim yn hawdd nac yn anodd	Gweddol anodd	Anodd iawn
Caerdydd	71.8%	17.9%	7.7%	2.6%	0%
Abertawe	66.7%	27.3%	3.0%	3.0%	0%
Wrecsam	80.0%	18.3%	0%	1.7%	0%
Gwynedd	72.7%	22.7%	4.5%	0%	0%

Ffynhonnell: Arolwg cwsmeriaid (n=154)

4.30 Mae Tablau 4.6 a 4.7 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid a holwyd yn byw'n gymharol agos at ganolfan neu leoliad untro Cymru'n Gweithio (gyda llai na chwarter fwy na phum milltir i ffwrdd). Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar pam ei bod yn hawdd iddynt gael mynediad i ganolfannau neu leoliadau untro Cymru'n Gweithio, dywedodd cwsmeriaid yng Nghaerdydd a Wrecsam fod ganddynt fynediad at gysylltiadau trafndiaeth da. Yng Ngwynedd, roedd 38.1 y cant o gwsmeriaid fel arfer yn teithio mewn car a 62.5 y cant (5/8) yn awgrymu bod safleoedd fel arfer yn hawdd eu cyrraedd mewn car<sup>29</sup>. Er bod mynediad mewn car yn hylaw i rai cwsmeriaid, mae'n bwysig cydnabod na fydd hyn yn wir yn achos pob cwsmer mewn ardaloedd gwledig.

**Tabl 4.6: Pa mor bell y mae'n rhaid i chi deithio i gyrraedd canolfan / lleoliad untro Cymru'n Gweithio?**

Awdurdod lleol	Llai nag 1 filltir	2–3 milltir	4–5 milltir	Mwy na 5 milltir
Caerdydd	28.2%	51.3%	7.7%	12.8%
Abertawe	35.7%	28.6%	21.4%	14.3%
Wrecsam	25.9%	53.4%	6.9%	13.8%
Gwynedd	35.0%	20.0%	15.0%	30.0%

Ffynhonnell: Arolwg cwsmeriaid (n=145). Noder nad yw hyn yn cynnwys pob ymateb 'ddim yn gwybod' ac mai cwestiwn un dewis ydyw.

**Tabl 4.7: Sut ydych chi'n teithio i'r lleoliad fel arfer?**

Awdurdod lleol	Ar droed	Ar feic/e-sgwter	Ar y bus	Ar y trê	Yn y car
Caerdydd	37.8%	5.4%	35.1%	5.4%	18.9%
Abertawe	36.4%	0%	45.5%	0%	24.2%
Wrecsam	33.3%	6.7%	43.3%	0%	20.0%
Gwynedd	33.3%	0%	28.6%	0%	38.1%

Ffynhonnell: Arolwg cwsmeriaid (n=151). Noder nad yw hyn yn cynnwys pob ymateb 'ddim yn gwybod' ac mae'n gwestiwn amlddewis, felly gall cyfanswm canrannau awdurdodau lleol fod yn fwy na 100 y cant.

4.31 Pan ofynnwyd iddynt pa mor groesawgar oedd safleoedd ffisegol Cymru'n Gweithio, ymatebodd pob cwsmer a holwyd yn gadarnhaol. Yn y rhan fwyaf o achosion,

<sup>29</sup> Mae'r data hwn yn seiliedig ar bum ymatebwr o Wynedd a oedd fel arfer yn teithio mewn car ac a ddywedodd eu bod yn ystyried bod cael mynediad i wefan Cymru'n Gweithio yn 'hawdd iawn' neu'n 'weddol hawdd'. Pan ofynnwyd iddynt pam, cyfeiriodd pob un ohonynt at fod yn hygyrch mewn car.

dywedodd cwsmeriaid fod hyn am fod y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt a bod y safle ei hun yn hygyrch ac yn groesawgar:

'Mae pob aelod o staff rwy'n ymwneud â nhw yn gwrtais. Maen nhw'n gyfeillgar ac yn dderbyngar ac mae fy nghynghorydd gyrfaoedd yn gyfeillgar iawn. Nid yw'n teimlo fel amgylchedd gelyniaethus ac nid yw'n anodd ymwneud â nhw.' (**Ymateb arolwg cwsmeriaid**)

'Bob tro rwy'n mynd yno mae'r staff yn gyfeillgar ac yn gallu darparu ar fy nghyfer. Maen nhw'n dda am ateb unrhyw gwestiynau sydd gen i. Pe bawn i eisiau newid trefniadau neu newid rhywbeth ar gyfer y tro nesaf, fe fydden nhw'n gallu gwneud hynny hefyd.' (**Ymateb arolwg cwsmeriaid**)

- 4.32 Yn gyffredinol, dywedodd dwy ran o dair o'r cwsmeriaid yn yr arolwg a oedd yn teimlo y gallent ateb y cwestiwn (66.1 y cant) y byddai'n well ganddynt gael holl gymorth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb<sup>30</sup>. Roedd y canfyddiad hwn yn gyson ar draws holl leoliadau'r astudiaethau achos. Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad terfynol, roedd y rhesymau am hyn yn aml yn deillio o gwsmeriaid yn ei chael yn haws siarad â chynghorydd Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb am wahanol resymau gan gynnwys amhariad ar y clyw, heriau o ran Saesneg fel ail iaith, a llythrennedd digidol cyfyngedig. Mewn lleiafrif o achosion, dywedodd cwsmeriaid hefyd fod siarad â chynghorydd wyneb yn wyneb hefyd yn teimlo'n fwy personol: Er bod yr adborth hwn gan sampl o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb yn amlach na'r garfan yn gyffredinol, mae gwerth canfyddiedig y cymorth dan sylw yn glir.

### **Barn cwsmeriaid am fylchau canfyddiedig mewn cymorth ac anghenion cymorth ychwanegol yn ymwneud â mynediad trefol a gwledig**


- 4.33 Dywedodd bron i dri chwarter yr holl gwsmeriaid a holwyd bod Cymru'n Gweithio wedi diwallu eu hanghenion cymorth 'i raddau helaeth' (72.1 y cant). Mae Ffigur 4.15 yn dangos bod cwsmeriaid, ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yr arolwg, yn teimlo bod cymorth Cymru'n Gweithio wedi diwallu eu hanghenion. Er bod ychydig yn llai o gwsmeriaid wedi nodi bod eu hanghenion wedi'u diwallu 'i

---

<sup>30</sup> Noder bod y canfyddiad hwn yn gyffredin ar draws pob grŵp oedran, yn enwedig y rhai rhwng 35 a 55 oed (22 y cant o'r atebion).

raddau helaeth' yng Ngwynedd (47.8 y cant), mae ymatebion ansoddol yn dangos bod hyn yn nodweddiadol oherwydd eu bod yn dal yn y broses o dderbyn cymorth neu am nad oedd agwedd benodol ar hyfforddiant neu gymorth ar gael trwy wasanaeth Cymru'n Gweithio (e.e. cyrsiau cadw gwenyn).

**Ffigur 4.15: I ba raddau ydych chi'n teimlo bod Cymru'n Gweithio wedi gallu diwallu eich anghenion cymorth?**



Ffynhonnell: Arolwg cwsmeriaid (n=159) yn seiliedig ar gwestiwn un dewis. Noder, oherwydd talgrynnu, y gall y ffigurau fod yn fwy na 100%.

## 5. Dealltwriaeth o Fodel y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol

### Canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o fodel y gwasanaeth

5.1 Gan fyfyrir ar gryfderau allweddol y model, roedd staff yn aml yn pwysleisio gwerth brand ac arlwy cyson Cymru'n Gweithio. Er bod timau rhanbarthol yn gallu ymateb i anghenion cwsmeriaid mewn modd hyblyg, yn unol ag arlwy'r cymorth yn lleol ac wedi'i ategu gan wybodaeth leol, canmolwyd y gallu i unrhyw un, ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru, gael mynediad i wasanaeth Cymru'n Gweithio a derbyn yr un arlwy:

'Mae'n fater o barhad i gwsmeriaid. Os byddant yn cael cymorth Cymru'n Gweithio, bydd yr un peth (waeth ble y maen nhw'n byw yng Nghymru). O safbwynt ansawdd, mae'n caniatáu ar gyfer ansawdd o ran parhad y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.' **(Cyfweliad â staff rheoli a darparu)**

5.2 O ystyried cwrpas daearyddol canolfannau cydleoli a lleoliadau untro Cymru'n Gweithio, roedd y staff yn gadarnhaol bod eu darpariaeth bresennol yn cyrraedd cwsmeriaid sydd angen cymorth yn effeithiol. Ar draws pob rhanbarth, disgrifiodd staff weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sefydlu safleoedd allgymorth ac untro newydd i sicrhau bod cwsmeriaid mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cael y cyfle i ymgysylltu â chymorth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb. Dywedodd staff, wrth fynd ati i sefydlu safleoedd allgymorth neu untro newydd mewn ardaloedd sydd â darpariaeth gyfyngedig, eu bod fel arfer yn 'treialu' canolfannau cydleoli neu untro am gyfnod o dri mis. Os yw'r safleoedd 'treialu' yn llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid ar ôl tri mis, caiff y safle ei gadw ac os nad yw'n cyrraedd cwsmeriaid caiff ei atal. Dywedodd staff fod hwn yn ddull effeithiol o ymgysylltu â chwsmeriaid newydd gan ei fod yn systematig ac yn sicrhau bod Cymru'n Gweithio ond yn defnyddio adnoddau yn y tymor hwy pan fo dull gweithredu'n effeithiol. Mae'r cyfnod 'treialu' yn cael ei ystyried yn allweddol gan lawer o staff gan fod safleoedd cydleoli neu untro newydd, mewn rhai achosion, yn methu ag ymgysylltu cwsmeriaid mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel. Yn yr achosion hyn, awgrymodd staff nad yw'n hysbys pam nad yw darpar gwsmeriaid yn ymgysylltu ond mae'r cyfnod 'treialu' yn sicrhau bod dulliau aflwyddiannus yn cael eu hatal yn y tymor hwy.

5.3 Awgrymodd staff a rhanddeiliaid hefyd fod yr arlwy o bell wedi bod o fudd i gwsmeriaid ac aelodau staff. Caiff ei ystyried bod gallu cwsmeriaid i ddewis sut y maent am ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn agwedd hollbwysig ar y gwasanaeth. Mae rhwng 50 a 55 y cant o gwsmeriaid sy'n byw mewn lleoliadau gwledig wedi ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Mae hyn yn cadarnhau bod yr arlwy o bell yn werthfawr ac yn angenrheidiol. At hynny, awgrymodd staff fod y gallu i ddarparu cymorth ar-lein a thros y ffôn yn lleihau'r pwysau adnoddau ar staff sy'n ymgysylltu o bell. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid iddynt deithio i amrywiaeth o leoliadau, a/neu gall staff eraill Cymru'n Gweithio y tu allan i'w tîm rhanbarthol gynorthwyo ag ymholiadau a chynnig cyngor gyrfaoedd:

'Mae'n gymorth rhad ac am ddim y gallwn ei gynnig yn ddwyieithog, gan gyfarfod mor agos ag y gallwn i'r cleient neu gael sgwrs fyw gyda nhw. Mae'r cyflymder wedi newid agweddau llawer o bobl at wasanaethau. Mae cael y gallu i gynnig sgysiau byw neu ymatebion e-bost yn hollbwysig ac mae hynny wedi'i alluogi gan y dull 'Cymru gyfan' am nad ydych chi'n dibynnu ar dimau rhanbarthol.'

**(Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)**

5.4 Yn yr un modd â'r heriau a amlygwyd mewn gwerthusiadau cyflogadwyedd eraill (gweler Adran 2), nododd staff cyflawni a rhanddeiliaid fod un o'r heriau allweddol mewn ardaloedd gwledig yn ymwneud ag ardaloedd daearyddol mawr yn cael eu cwmpasu gan nifer cyfyngedig o staff, gan olygu bod staff a chwsmeriaid yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fel y nodwyd yn ymchwil Trafnidiaeth Cymru yn 2019, mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad. Mae tua 70 y cant o boblogaeth Cymru yn byw llai na 400m ar droed o safle bws sydd ag o leiaf un bws yr awr. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio fesul rhanbarth, gydag 81 y cant o boblogaeth De-ddwyrain Cymru yn llai na 400m o safle bws sydd â gwasanaeth bws rheolaidd o gymharu ag ychydig dros chwarter poblogaeth Canolbarth Cymru<sup>31</sup>.

---

<sup>31</sup> Llywodraeth Cymru (2021) [Strategaeth Drafnidiaeth Newydd ar gyfer Cymru: Tueddiadau data trafndiaeth](#).

- 5.5 Gwnaeth staff cyflenwi a rhanddeiliaid hefyd dynnu sylw at y ffaith bod cwsmeriaid gwledig yn fwy tebygol o fod â band eang annibynadwy, ac y byddai'r rhai â llythrennedd digidol gwael hefyd yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau ar-lein. Mae hyn yn gwaethygu problemau'n ymwneud â staff sy'n gwasanaethu ardaloedd daearyddol mawr, gan fod y cwsmeriaid hyn yn fwy dibynnol ar gymorth wyneb yn wyneb. Er y gall Cymru'n Gweithio nodi lleoliad cwsmeriaid, prin yw'r dystiolaeth o'r rhwystrau ehangach y gall cwsmeriaid eu hwynebu wrth geisio cael cymorth (e.e. cysylltedd digidol cyfyngedig, defnydd o gar neu fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus). Lle bo modd, dylid casglu'r wybodaeth hon ar gyfer systemau monitro i sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion sydd angen cymorth.
- 5.6 Ar y cyfan, roedd staff a rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch sut mae Cymru'n Gweithio yn ymgysylltu â chwsmeriaid ledled Cymru. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch a yw'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n ddigonol â chwsmeriaid gwledig yn arbennig yn parhau i fod yn glir. Er ei bod yn ymddangos bod partneriaethau allgymorth yn gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd gwledig a threfol, e.e. gweithio gydag ysbytai a gwasanaethau sy'n arbenigo mewn ymgysylltu â phobl ifanc NEET, nid yw'n ymddangos bod y rhain yn helaeth ar draws pob rhanbarth a daearyddiaeth wledig.

### **Ystyriaethau yn y dyfodol**

- 5.7 Gan ystyried sut y gallai Cymru'n Gweithio gyflawni'n well ei gweledigaeth o fod yn bwynt mynediad i Gymru gyfan, rhoddodd staff a rhanddeiliaid amrywiaeth o awgrymiadau i lywio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- 5.8 Roedd staff a rhanddeiliaid yn aml yn canmol seilwaith cenedlaethol a model hyblyg Cymru'n Gweithio. Roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod cadw'r model hyblyg a chynhwysol hwn yn hollbwysig er mwyn i Cymru'n Gweithio barhau i gynorthwyo amrywiaeth o gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig a threfol yn y dyfodol. Bydd cadw'r model hwn hefyd yn caniatáu i wasanaeth Cymru'n Gweithio barhau i ddefnyddio dulliau newydd o ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig, gan gydnabod nad



oes un dull sy'n addas i bawb o ran ymgysylltu â chwsmeriaid mewn ardaloedd sydd â seilwaith trafndiaeth a chymunedol cyfyngedig.

- 5.9 Roedd staff a rhanddeiliaid yn cydnabod bod datblygu perthnasoedd ag ystod eang o bartneriaid allgymorth yn ddull effeithiol o gael cwsmeriaid gwledig i ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Er bod staff a rhanddeiliaid o'r farn mai partneriaethau allgymorth a gwasanaethau cymorth untro oedd y ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig, mae'n bwysig cydnabod, lle defnyddiwyd y dulliau hyn, y gall fod yn heriol o hyd i staff ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae nifer isel y cwsmeriaid sy'n ymweld â safleoedd gwledig Cymru'n Gweithio yn golygu bod rheolwyr yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau defnyddio adnoddau i staffio'r safleoedd hyn.
- 5.10 Fel yr amlygwyd yn Adroddiad Terfynol Cymru'n Gweithio, er bod rhanddeiliaid a staff yn canmol yr adnoddau sydd ar gael drwy'r tîm cyfryngau cymdeithasol canolog ar gyfer Cymru'n Gweithio, roedd canfyddiad hefyd nad oedd yn berthnasol iawn yn lleol. Yn hytrach, awgrymodd staff a rhanddeiliaid y byddai timau lleol yn elwa o adnoddau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u targedu yn fwy lleol i wella ymgysylltiad â'r arlwy lleol. Wrth i ymdrechion Llywodraeth Cymru ac Openreach i sicrhau y gall trigolion ledled Cymru gael mynediad at fand eang ffeibr llawn cyflym a dibynadwy barhau'n llwyddiannus<sup>32</sup>, mae'n debygol y bydd arlwy o bell Cymru'n Gweithio a'r angen am allgymorth ar-lein yn lleol yn parhau i fod yn fwyfwy pwysig.

---

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru (2023) [Cyhoeddiad band eang ffeibr llawn cyflym llwyddiannus](#).

## 6. Casgliadau

- 6.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud ag ymgysylltu trefol a gwledig a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn.
- 6.2 Mae bron i draean o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn byw mewn awdurdodau gwledig, ac mae bron i chwarter y cwsmeriaid yn byw mewn awdurdodau trefol neu yn awdurdodau'r Cymoedd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod safleoedd Cymru'n Gweithio yn cyfateb yn gymesur â chyfanswm poblogaethau oedran gweithio ledled Cymru. Byddai mwy o ddadansoddiad o gyrhaeddiad gwasanaethau Cymru'n Gweithio, gan gynnwys ymgysylltiad cwsmeriaid â safleoedd untro, yn helpu ymhellach i gryfhau'r asesiad hwn ar lefel leol.
- 6.3 Roedd staff a rhanddeiliaid yn teimlo'n gyffredinol bod Cymru'n Gweithio wedi llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid sydd angen cymorth mewn ardaloedd trefol a gwledig. Lle'r oedd hyn yn wir, cyfeiriodd staff at gynnig allgymorth i gwsmeriaid gydag amrywiaeth eang o bartneriaid o fewn cymunedau lleol i ymgysylltu ag unigolion mewn amgylcheddau y byddent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus ynddynt. Mae datblygu perthnasoedd ag ystod eang o bartneriaid allgymorth wedi bod yn ddull effeithiol o fewn Cymru'n Gweithio i gyrraedd ac ymgysylltu'n well â darpar gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod gan y rhaglen gyrhaeddiad eang ledled Cymru.
- 6.4 Yn gyffredinol, mae dulliau allgymorth yn effeithiol o fewn Cymru'n Gweithio, a chyfeiriodd staff at ystod o arferion effeithiol (e.e. cynnal digwyddiadau allgymorth mewn canolfannau cymunedol, safleoedd Canolfan Byd Gwaith, a llyfrgelloedd). Fodd bynnag, awgrymodd staff a rhanddeiliaid ei bod yn debygol bod darpar gwsmeriaid nad ydynt yn eu cyrraedd o hyd drwy weithgarwch allgymorth. Awgrymodd staff hefyd bod poblogaethau bach mewn ardaloedd gwledig yn aml yn golygu nad oedd digon o alw i gyfiawnhau lleoli aelod o staff mewn ardaloedd penodol am fwy nag un diwrnod yr wythnos, neu i barhau i ddefnyddio lleoliad ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod adolygu tri mis.

- 6.5 Roedd staff hefyd o'r farn bod gwasanaethau untro o fewn Cymru'n Gweithio yn ddull effeithiol o ymgysylltu â darpar gwsmeriaid. Roedd hyn yn arbennig o bwysig wrth geisio ymgysylltu â chwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd staff fod cynnig gwasanaethau untro yn eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwledig gwael neu gyfyngedig, ond yn eu hatal rhag ymrwymo gormod o adnoddau staff mewn ardaloedd lle mae poblogaethau bach yn unig yn byw. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwerthuso rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill Llywodraeth Cymru, e.e. [Cymunedau am Waith a Mwy](#), lle amlygwyd bod gwasanaethau untro yn ffordd effeithiol i wneud cynnydd mewn cymunedau gwledig. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad gwerthuso terfynol, dywedodd staff y gall fod yn heriol cyrraedd rhai cwsmeriaid drwy wasanaethau untro, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn yr achosion hyn, roedd staff yn ansicr pam nad oedd cwsmeriaid yn ymgysylltu â gwasanaethau untro ond awgrymwyd efallai nad oedd pobl yn ymwybodol bod y gwasanaeth untro yno.
- 6.6 Er bod nad yw'r staff ar y cyfan yn gwybod y rhesymau pam nad yw darpar gwsmeriaid yn ymgysylltu â gwasanaethau allgymorth a safleoedd untro, mae'r cyfnod 'treialu' ar gyfer safleoedd newydd yn sicrhau bod dulliau aflwyddiannus yn cael eu hatal yn y tymor hwy. Dywedodd staff fod y model 'treialu' yn effeithiol gan ei fod yn systematig ac yn sicrhau mai dim ond lle y mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid y mae'n defnyddio adnoddau.
- 6.7 Mae dadansoddiad o wybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio yn dangos bod rhai gwahaniaethau allweddol yn y ffordd y mae cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig a threfol yn ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ac yn cael cymorth ganddo. Mae'r gwahaniaethau hyn yn fwyaf amlwg wrth archwilio'r llwybrau sy'n cael eu defnyddio i atgyfeirio cwsmeriaid at wasanaeth Cymru'n Gweithio. Atgyfeiriwyd cyfran uwch o gwsmeriaid o awdurdodau gwledig i wasanaeth Cymru'n Gweithio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith nag o ardaloedd trefol. Er bod cyfran ychydig yn uwch o gwsmeriaid a ymunodd o ardaloedd gwledig yn ddi-waith na chwsmeriaid mewn ardaloedd mwy trefol, roedd cwsmeriaid di-waith yn dal yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith mewn ardaloedd gwledig. Gall diffyg

hunanatgyfeirio ymhlith cwsmeriaid gwledig ddeillio o ffactorau amrywiol; er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd trafndiaeth gyfyngedig, seilwaith digidol, a/neu farchnata aflwyddiannus, a gallai pob un ohonynt rwystro darpar gwsmeriaid ymhellach rhag cael mynediad i'r gwasanaeth. Fel arall, gallai llwyddiant y Ganolfan Byd Gwaith o ran cyrraedd ac atgyfeirio cwsmeriaid gwledig fod yn arwain at lai o alw am hunanatgyfeirio yn yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, mae'n fwy cyffredin i gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig fod wedi cael mynediad o bell yn unig i wasanaeth Cymru'n Gweithio.

- 6.8 Mae arlwy o bell Cymru'n Gweithio yn amlwg wedi bodloni galw cwsmeriaid, gyda data gwybodaeth monitro yn dangos mai dim ond drwy opsiwn o bell y mae bron hanner yr holl gwsmeriaid gwledig yn cael cymorth Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau gwerthusiadau rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill Llywodraeth Cymru, e.e. [Cyfrifon Dysgu Personol](#) a [Chymunedau am Waith a Mwy](#), sy'n amlygu bod opsiynau cymorth ar-lein wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ers pandemig COVID-19.
- 6.9 Waeth beth fo'u lleoliad, dywedodd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid a holwyd eu bod wedi canfod bod gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn hawdd ei gyrchu. Er bod hyn yn dangos bod y gwasanaeth yn hygyrch ar draws ystod o fathau o ddaearyddiaeth, mae'n bwysig cydnabod bod y gweithgareddau ymchwil yn bennaf wedi cyrraedd cwsmeriaid a oedd wedi derbyn cymorth wyneb yn wyneb. O ganlyniad, mae'n debygol nad oedd rhai rhwystrau i gael mynediad i'r gwasanaeth wedi eu bwydo yn ôl drwy weithgarwch ymchwil.
- 6.10 Nododd staff a rhanddeiliaid yn fwyaf cyffredin mai seilwaith trafndiaeth gwael oedd yr her allweddol o ran mynediad cwsmeriaid i safleoedd Cymru'n Gweithio. Awgrymodd staff y gallai heriau trafndiaeth olygu bod y gwasanaeth yn colli mwy o ddarpar gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Fel a nodwyd yn Adran 2, nid yw'r her hon yn unigryw i wasanaeth Cymru'n Gweithio ac mae'n her y cyfeirir ati'n gyffredin o fewn cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru. Yn [Twf Swyddi Cymru a Mwy](#), er enghraifft, nodwyd bod cost trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig yn rhwystr allweddol i gael mynediad at hyfforddiant. Ni nodwyd

trafnidiaeth fel her allweddol yn yr arolwg cwsmeriaid; fodd bynnag, roedd y cwsmeriaid holwyd yn ymwneud wyneb yn wyneb â gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn fwy nag y gwnaeth y cwsmer cyffredin. O ganlyniad, mae'n debygol bod yr ymatebion i'r arolwg yn cynnig dealltwriaeth gan is-grŵp o gwsmeriaid sydd wedi defnyddio cymorth Cymru'n Gweithio yn fwy dwys.

- 6.11 Mae heriau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig yn awgrymu y dylai darpariaeth yn y dyfodol adolygu sut y gwneir penderfyniadau am bartneriaid cydleoli ac allgymorth a sut y'u cynhelir. Er bod ymchwil gychwynnol wedi'i chynnal i nodi nodweddion ac anghenion y boblogaeth ar draws awdurdodau lleol, mae'n ymddangos bod y dulliau presennol o fynd i'r afael ag allgymorth a chydleoli yn amrywio ar draws Cymru'n Gweithio, gyda ffocws sylweddol ar nifer yr ymwelwyr a niferoedd posibl yr atgyfeiriadau. Mae ymateb yn effeithiol i anghenion o ran galw yn agwedd graidd ar ddull hyblyg Cymru'n Gweithio o weithio, ond gallai mynd ati'n fwy gwybodus wrth dargedu grwpiau ac anghenion penodol hybu dull lleol mwy systematig o ddarparu cymorth Cymru'n Gweithio.

## 7. Argymhellion

- 7.1 O ganlyniad i ganfyddiadau'r papur crynodeb hwn, mae'r argymhellion canlynol wedi'u nodi i gynorthwyo a gwella darpariaeth Cymru'n Gweithio yn y dyfodol:
- 7.2 **Argymhelliad 1:** Dylai darpariaeth yn y dyfodol gadw modelau gwasanaeth allgymorth ac untro yn bennaf mewn ardaloedd gwledig i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol at y rhai na fyddent efallai'n ymgysylltu â'r gwasanaeth fel arall. Caiff ei gydnabod o fewn Cymru'n Gweithio a gwerthusiadau rhaglenni cyflogadwyedd eraill fod gwasanaethau untro yn fecanwaith tymor byr effeithiol i oresgyn seilwaith gwledig gwael neu gyfyngedig.
- 7.3 **Argymhelliad 2:** Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau allgymorth ac untro i gwsmeriaid mor effeithiol ag y gallant fod, dylai darpariaeth yn y dyfodol geisio datblygu prosesau systematig lle mae Gyrfa Cymru yn rhannu gwybodaeth gyddestunol e.e. gwybodaeth am y farchnad lafur, ynghyd â chyrhaeddiad presennol ymhlith cwsmeriaid, â thimau rhanbarthol Cymru'n Gweithio drwy fapiau gwres i nodi bylchau presennol yn well ar lefel leol. Byddai'r dull hwn hefyd yn sicrhau bod adnoddau staff cyfyngedig yn cael eu targedu at ardaloedd lle mae eu hangen.
- 7.4 **Argymhelliad 3:** Lle bo modd, dylai timau rhanbarthol barhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau i ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig. Mae'r cyfuniad hwn o ddulliau'n cynnwys parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid allgymorth, parhau i gynnig cymorth o bell a defnyddio allgymorth drwy'r cyfryngau cymdeithasol gyda ffocws mwy lleol. Mae'n bwysig cydnabod nad oes un dull sy'n addas i bawb o ran ymgysylltu â chwsmeriaid gwledig ac mae staff o'r farn bod rhai darpar gwsmeriaid gwledig yn dal yn anodd eu cyrraedd oherwydd diffyg seilwaith cymunedol a thrafnidiaeth. Bydd defnyddio cyfuniad o ddulliau felly yn rhoi'r cyfle gorau i staff lwyddo wrth geisio ymgysylltu â phobl mewn ardaloedd gwledig.
- 7.5 **Argymhelliad 4:** Dylai darpariaeth yn y dyfodol gynnwys ymgyrchoedd marchnata lleol wedi'u targedu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd hyn yn sicrhau bod timau rhanbarthol yn gallu darparu ar gyfer anghenion lleol ac ymgysylltu'n well â chwsmeriaid gwledig.

## 8. Cyfeiriadau

Allies, O., Burgess, A., Clark, M., Gallagher, P. a Maughan, C. (2023) [Gwerthusiad o Gyfrifon Dysgu Personol](#) (cyrchwyd: 25 Ebrill 2024).

Bryman, A. (1998) [Quantity and Quality in Social Research](#). Llundain: Routledge (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Charmaz, K. (2000) [Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods](#), yn N.K. Denzin ac Y.S. Lincoln (gol.) Handbook of Qualitative Research 2nd Edition (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Estyn (2023) [Rhaglen ieuencid Twf Swyddi Cymru+: Mewnwelediadau hydref 2023](#) (cyrchwyd: 25 Ebrill 2024).

Griffiths, E., Marshall, T., Gallagher, P., Grunhut, S., Melville, D., Bivand, P. a Stevens, C. (2020) [Gwerthusiad o Raglen ReAct III: 2015 i 2019](#) (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Holtom, D., Burrowes, E. a Bryer, N. (2023) [Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Cam 1 \(Gwerthusiad proses a theori newid\)](#) (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Llyfrgell Ty'r Arglwyddi (2020) [Fact file: Rural Economy](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023)

Llywodraeth Cymru (2008) ['Cymru wledig' - Diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2019a) [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040: Papur Esboniadol – Ardaloedd Gwledig](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2019b) [Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2021) [Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru – Tueddiadau Data Trafnidiaeth](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022a) [Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) [Y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022c) [Y Gymraeg yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2023a) [Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2023](#) (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2023b) [Cyhoeddiad band eang ffeibr llawn cyflym llwyddiannus](#) (cyrchwyd: 25 Ebrill 2024).

